Mae'r Adroddiad Blynyddol yn gyfle da i fyfyrion ar flwyddyn lwyddiannus arall ac adolygu ein cyflawniadau wrth edrych ymlaen at heriau'r dyfodol. Mae'r cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn parhau i gyflwyno ymateb cadarnhaol i anghenion plant, pobl ifanc a mabwysiadwyr. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'n dda ar bawb sy'n ymwneud â mabwysiadu ledled Cymru tra'n cydnabod bod mwy i'w wneud o hyd.

Rhaid deall bod busnes mabwysiadu yng Nghymru yn cael ei gefnogi gan system o fonitro a rheoli perfformiad. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol ac yn darparu cyd-destun yr hyn sy'n cael ei gwblhau yn dda a lle mae angen ffocws pellach.

Mae'r cyfuniad o ofynion deddfwriaethol, llywodraeth leol ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yn cydweithio ac yn gweithio gyda'i gilydd yn parhau i fod yn rym ar gyfer newid. Mae cydweithio yn ddi-os yn gymhleth ac yn gofyn am ymroddiad i newid gan bawb sydd â chyfrifoldeb i ddarparu gwasanaethau mabwysiadu perthnasol a deinamig. Gall gyflawni darpariaeth sy'n perfformio'n dda yn gyson fod yn heriol ac yn werth chweil.

Mae ymgysylltu a gwrando ar fabwysiadwyr a phlant a phobl ifanc a fabwysiadwyd wedi atgyfnerthu negeseuon allweddol o'r ymchwil. Mae cymorth deinamig trwy ymyrraeth gyffredinol, arbenigol wedi'i dargedu yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig. Mae eleni wedi cyflwyno'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu sy'n rhoi cyfle i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau plant a rhieni. Y dasg yn 2017-18 yw sicrhau adnoddau ac ymyrraeth ar draws gwasanaethau sy'n ddeinamig ac yn ymateb yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol i anghenion mabwysiadwyr, plant a phobl ifanc.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i staff ar draws yr holl asiantaethau sy'n gweithio yn eu rolau a'u cyfrifoldebau i wella profiad mabwysiadu tra'n cydnabod y cyfraniad sylweddol a phwysig mae mabwysiadwyr a phlant wedi ei wneud o ran darparu eglurder ynghylch eu profiadau, a sut y gallai gwasanaethau barhau ar eu taith o newid, a sut y dylent wneud hynny.

Philip T. Hodgson

Phil Hodgson

Cadeirydd Annibynnol
Grŵp Cyngori'r Gwasanaeth Mabwysiadu
Cenedlaethol



Cyflwyniad y Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Rwy'n falch iawn i ddarparu'r adroddiad hwn sy'n amlinellu cynnydd a llwyddiannau pellach y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) yn 2016-17. Gallwn fod yn falch o fod wedi cyflawni llawer iawn a gwneud llawer o bethau yn dda.

Rwy'n arbennig o falch o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud gyda phlant a phobl ifanc a fabwysiadwyd a'u rhieni i sicrhau mai'r newidiadau a wnawn yw'r hyn y maent ei eisiau a'i angen. Yn ogystal, rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol i berfformiad er bod y rhain yn dechrau ymddangos yn heriol i'w hymestyn.

Mae yna, fodd bynnag, dipyn o ffordd i fynd i gwrdd â dyheadau'r rhai oedd yn ymwneud â chynllunio cynnar y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a'r dyletswyddau a nodir yn y ddeddfwriaeth. Mae'r agenda datblygu sylweddol sydd gennym, gan adlewyrchu ymchwiliad a chanfyddiadau gwreiddiol y Cynulliad Cenedlaethol, yn mynd i gymryd nifer o flynyddoedd i'w gyflawni; dim ond 2.5 mlynedd sydd ers i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gael ei sefydlu.

Mae Adroddiad Etifeddiaeth Pedwerydd Cynulliad y Cynulliad Cenedlaethol 2016 yn nodi bod ymchwiliad dilynol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar fabwysiadu yn amlinellu ...

"er bod llawer o gynnydd wedi cael ei wneud gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn enwedig o ran cyfnodau cynharach y broses fabwysiadu, roedd llawer o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt unwaith y bydd y mabwysiadu wedi digwydd."

Mae hwn yn ddadansoddiad teg.

Rydym wedi cael effaith dda ar yr agenda strategol a pholisi sydd wedi bod yn hanfodol i roi'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol mewn sefyllfa i gwrdd â'r nodau a'r dyheadau. Mae gwneud newidiadau i'r ffordd y darperir gwasanaethau yn dasg fawr gyda llawer o elfennau iddi; mae staff ac asiantaethau ledled Cymru yn gweithio'n galed i wneud hyn.

Rydym wedi adnabod nifer o heriau sy'n gysylltiedig â gweithio ar y cyd, y cyd-destun newidiol yr ydym yn gweithio ynddo a'r anallu i gyfeirio adnoddau. Ochr yn ochr â bod yn realistig ynghylch amserlenni a'r cyd-destun heriol, mae angen mynd i'r afael â'r rhain wrth i ni barhau i ganolbwyntio ar wella gwasanaethau – sef, wrth gwrs, y peth pwysicaf oll.

Suzanne Griffiths

Suzanne Griffiths

Cyfarwyddwr Gweithrediadau



Dyma 3ydd adroddiad blynyddol Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru.

Lansiwyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2014. Mae'n ymbarél sy'n dwyn ynghyd sefydliadau a gweithgareddau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol:

Yn lleol, mae pob awdurdod lleol:

- yn parhau i ddarparu gwasanaethau i bob plentyn sy'n derbyn gofal.
- yn adnabod ac yn gweithio gyda phlant y mae mabwysiadu yn gynllun priodol iddynt.

Mae awdurdodau lleol yn dal i ddarparu cymorth ar ôl mabwysiadu eu hunain mewn dau ranbarth.

Yn rhanbarthol, mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd mewn pum cydweithfa. Mae pob rhanbarth:

- yn lleoli plant i'w mabwysiadu.
- yn recriwtio ac yn asesu mabwysiadwyr.
- yn cynnig cwnsela i rieni biolegol.
- yn cynnig cyngor i oedolion a fabwysiadwyd.
- yn cysylltu ag asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol, iechyd ac addysg.
- a chanddo Fwrdd Rhanbarthol i oruchwylio ei waith.

Mae pob un o'r pump rhanbarth yn darparu rhai gwasanaethau cymorth ar ôl mabwysiadu. Mae tri rhanbarth yn ymgymryd â'r asesiadau ar gyfer ceisiadau am gymorth.



Yn genedlaethol, mae gennym:


- y Tîm Canolog dan arweiniad Cyfarwyddwr Gweithrediadau. Mae'r tîm yn cael ei gynnal gan Gyngor Dinas Caerdydd ar ran yr holl awdurdodau lleol. Mae'r tîm canolog yn darparu cyfeiriad cenedlaethol, datblygiad a chydlyniad.
- Cofrestr Fabwysiadu Cymru (a reolir gan y Tîm Canolog).
- y Bartneriaeth Fabwysiadu Wirfoddol Strategol a sefydlwyd gan:
 - Barnardo's Cymru
 - Cymdeithas Plant Dewi Sant
 - AFA Cymru (Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu yng Nghymru)
 - Adoption UK
 - After Adoption
- Bwrdd Llywodraethu a Grŵp Cyngori i oruchwylio gwaith y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Gyda'n gilydd, ein rôl yw gweithio tuag at weledigaeth y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol:

- Cynyddu'r ystod o gartrefi mabwysiadol sydd ar gael i gwrdd ag anghenion plant y mae mabwysiadu yw'r cynllun ar eu cyfer.
- Gwneud yn siwr bod lleoliadau yn cael eu gwneud mewn ffordd amserol, gan gynnwys lleoliadau i blant ag anghenion ychwanegol a brodyr a chwiorydd sy'n cael eu lleoli gyda'i gilydd.
 - Gwneud yn siŵr bod darpar fabwysiadwyr a mabwysiadwyr cymeradwy yn cael asesiad a chymorth prydlon o ansawdd da.
 - Gweithredu ein Fframwaith ar gyfer Cymorth Mabwysiadu sy'n ceisio darparu:
 - gwell mynediad i gyngor, gwybodaeth a rhai gwasanaethau i bawb.
 - gwell mynediad i gymorth arbenigol wedi'i dargedu'n well i blant a theuluoedd sydd angen cymorth parhaus.
 - Gwella gwasanaethau mabwysiadu yn gyffredinol ar draws Cymru.

Ffeithiau allweddol 2016–17

Cyfanswm yr achosion mabwysiadu yng Nghymru



Gweithgarwch Mabwysiadu eleni



Cymorth eleni





Cofrestr Fabwysiadu Cymru

Cafodd Cofrestr Fabwysiadu Cymru ei lansio yn 2014. Daeth yn rhan o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn ystod 2015.






Ffeithiau allweddol:

- Mae'r Gofrestr yn helpu i baru plant gyda mabwysiadwyr ledled Cymru.
- Mae'r holl Ranbarthau ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yn defnyddio'r Gofrestr.
- Os nad yw plentyn neu fabwysiadwr wedi cael ei baru o fewn tri mis, rhaid ei gyfeirio at y Gofrestr.

Rydym hefyd yn defnyddio'r Gofrestr i:

- ddod â gweithwyr proffesiynol at ei gilydd i drefnu paru rhwng plant a mabwysiadwyr.
- cynnal diwrnodau i fabwysiadwyr ddod i wybod am blant ar y Gofrestr. Ym mis Tachwedd, daeth 50 o fabwysiadwyr i ddiwrnod cyfnewid, a chafodd wyth o blant eu paru oherwydd y digwyddiad.
- cynnal Diwrnodau Gweithgareddau Mabwysiadu lle gall mabwysiadwyr a phlant sy'n aros i'w mabwysiadu gyfarfod ei gilydd mewn amgylchedd cefnogol, diogel a llawn hwyl. Roedd y diwrnod cyntaf ym mis Mawrth 2017 gyda chefnogaeth gan gydweithwyr o Coram BAAF.

Yn 2016–17, roedd Cofrestr Fabwysiadu Cymru yn rhan o 41 (14%) o achosion o baru ar gyfer mabwysiadu.



A ydym wedi cyflawni'r hyn yr oeddem wedi'i roi yn ein cynllun 2016-17?

Roedd gan ein cynllun 2016-17 ddwy brif flaenoriaeth:

- **Blaenoriaeth 1:** Gwella'r cymorth mabwysiadu
- **Blaenoriaeth 2:** Datblygu cronfa ddata newydd i gadw mewn cysylltiad â mabwysiadwyr a bod y Gofrestr Fabwysiadu Cymru newydd

Rhoesom hefyd dair her i'n hunain:

- **Her 1:** Lleoli plant yn fwy effeithiol.
- **Her 2:** Cynyddu'r ystod o gartrefi mabwysiadol sydd ar gael i gwrdd ag anghenion plant y mae mabwysiadu yw'r cynllun ar eu cyfer.
- **Her 3:** Sicrhau fod y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cael ei redeg yn dda.



BLAENORIAETH 1

Gwella'r cymorth mabwysiadu

Yr hyn a ddywedom	Yr hyn a wnaethom
Llunio cynllun gyda phlant, pobl ifanc a mabwysiadwyr i ddatblygu gwasanaethau cymorth mabwysiadu ledled Cymru.	<p>Mae'r Fframwaith Cefnogi Mabwysiadu wedi cael ei gytuno gan Grŵp Cynghori a Bwrdd Llywodraethu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae wedi mynd i'r holl Fyrddau Rheoli Rhanbarthol.</p> <p>Ym mis Hydref 2016, rhoddodd Llywodraeth Cymru grant i ni i gytuno ar gynllun busnes ar gyfer y Fframwaith. Gofynnem i'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus i ddatblygu'r cynllun i ni. Ers mis Ionawr 2017, mae aelodau o'r grŵp cynghori, ein partneriaid mewn asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol a mabwysiadwyr oll wedi cymryd rhan yn y prosiect hwn.</p> <p>Rydym wedi dechrau casglu data am gymorth mabwysiadu. Nawr mae gennym linell sylfaen, felly y flwyddyn nesaf, byddwn yn gwybod os yw cymorth mabwysiadu wedi gwella.</p>

Yr hyn a ddywedom	Yr hyn a wnaethom
<p>Ei gwneud yn haws i fabwysiadwyr gael y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> wneud yn siŵr bod pob Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth awdurdodau lleol yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am gymorth mabwysiadu, ac yn cyfeirio pobl at y gwasanaeth cywir os oes angen cyngor mabwysiadu arbenigol neu asesiad ar gyfer cymorth arnyn nhw datblygu cynllun ar gyfer y Rhanbarthau i wneud asesiadau cymorth mabwysiadu gwneud gwasanaethau eraill yn 'ymwybodol o fabwysiadu' 	<p>Rydym wedi rhoi mwy o gyngor a mwy ynglŷn â chymorth a hyfforddiant ar ein gwefan. Mae rhai Rhanbarthau wedi gwneud hyn ar eu gwefannau hefyd.</p> <p>Mae DEWIS yn ffynhonnell ar-lein Cymru gyfan o wybodaeth am ofal cymdeithasol. Rydym wedi ychwanegu ein gwybodaeth ein hunain i DEWIS. Mae ein tîm canolog yn cynghori DEWIS am wybodaeth ar-lein i blant.</p> <p>Mae Rhanbarth De-ddwyrain Cymru yn treialu asesiadau cymorth mabwysiadu yn hytrach na bod pob awdurdod lleol yn gwneud eu rhai eu hunain. Rydym am i bob rhanbarth wneud hyn yn y dyfodol.</p> <p>Rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i roi mwy o rôl i addysg.</p> <p>Rydym wedi gwneud cysylltiadau gyda strategaeth 'Rhianta Cadarnhaol' Llywodraeth Cymru. Bydd Rhanbarthau ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yn gallu defnyddio adnoddau 'Rhianta Cadarnhaol' i gefnogi mabwysiadwyr.</p> <p>Mae'r holl Ranbarthau a'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yn gweithio i wella cymorth mabwysiadu, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gweithiodd Canolbarth a Gorllewin Cymru a Bae'r Gorllewin gyda'i gilydd i gynnig hyfforddiant 'Rhianta Ein Plant' i fabwysiadwyr. Defnyddiodd Adoption UK ei grant i redeg yr hyfforddiant. Mae De-ddwyrain Cymru yn gwneud hyd yn oed mwy gyda gwasanaeth seicoleg y Bwrdd Iechyd. Mae'r holl staff yn cael pedwar diwrnod o hyfforddiant ac maen nhw'n rhan o grŵp ymarfer myfyriol. Mae'r grŵp Trafod Mabwysiadu newydd ar gyfer Bae'r Gorllewin wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae'r cyfarfodydd misol wedi helpu pobl ifanc i siarad am eu straeon mabwysiadu a chael gwrandawriad gennym ni ac eraill. Mae gan Ogledd Cymru grŵp cymorth newydd, ac mae'n parhau â'i gontract gydag After Adoption am rai gwasanaethau a hyfforddiant.
<p>Lobio i wneud yn siŵr fod gan Gymru y deddfau a'r polisiâu cywir ar gyfer datblygu cymorth mabwysiadu.</p>	<p>Bydd Adran 8 a 9 y Bil Mabwysiadu a Phlant yn Lloegr yn cael ei ymestyn i Gymru. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i lysoedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> feddwl am anghenion gydol oes plant a fabwysiadwyd. ystyried rhieni mabwysiadol fel prif ffigwr ymlyniad eu plant mewn gwrandawriadau mabwysiadu sy'n cael eu herio. <p>Rydym yn cael ein cynrychioli ar Grŵp Cynghori Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwella Canlyniadau i Blant. Mae cymorth mabwysiadu yn awr yn flaenoriaeth yn ei gynllun.</p> <p>Rydym wedi siarad â Llywodraeth Cymru am ei Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Rydym wedi helpu mabwysiadwyr a phlant a phobl ifanc a fabwysiadwyd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.</p> <p>Rydym wedi cynghori Llywodraeth Cymru am:</p>

Yr hyn a ddywedom	Yr hyn a wnaethom
	<ul style="list-style-type: none"> wneud i'r rheoliadau Cymorth Mabwysiadu gyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. newidiadau i reoliadau fel y gall y broses ar gyfer cymeradwyo mabwysiadwyr gael ei symleiddio.
<p>Defnyddio adborth gan blant, pobl ifanc a mabwysiadwyr i helpu i wneud gwasanaethau addysg yn fwy 'ymwybodol o fabwysiadu'.</p> <p>Datblygu cynllun manwl i fynd ochr yn ochr â strategaeth Llywodraeth Cymru 'Codi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru'.</p>	<p>Mae gan Lywodraeth Cymru grŵp sy'n edrych ar addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant a fabwysiadwyd. Rydym yn rhan o'r grŵp hwn, ac rydym wedi ysgrifennu cynllun mabwysiadu i fynd ochr yn ochr â'i strategaeth 'Codi uchelgeisiau'.</p> <p>Adoption UK sy'n arwain ar weithio gyda gwasanaethau addysg i ni.</p> <p>Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â staff Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal Llywodraeth Cymru.</p> <p>Rydym yn hyrwyddo <i>'Cael pethau'n iawn i bob plentyn: Canllaw i ysgolion ar weithio gyda phlant wedi'u mabwysiadu a'u teuluoedd'</i>. Cafodd y canllaw ei ysgrifennu ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Adoption UK.</p> <p>Mae gan bob ardal awdurdod lleol gydlynedd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae gan y rhanbarthau gysylltiadau da gyda nhw.</p> <p>Mae consortia addysg Rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru wedi datblygu hyfforddiant ymlyniad mewn ysgolion. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei ddefnyddio fwyfwy ar draws Cymru.</p> <p>Mae swyddog hyfforddi Rhanbarth Gogledd Cymru wedi cynnal hyfforddiant ar gyfer penaethiaid.</p> <p>Mae aelod o Ranbarth y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd wedi darparu hyfforddiant tebyg i ysgolion.</p> <p>Mae Adoption UK wedi cyflwyno hyfforddiant HMS i fwy na 400 o gyfranogwyr addysg ledled Cymru eleni.</p>
<p>Defnyddio adborth gan blant, pobl ifanc a mabwysiadwyr i ddylanwadu ar sut mae CAMHS yn gwella mynediad i wasanaethau ar gyfer plant a fabwysiadwyd a'u teuluoedd, gan gynnwys gwasanaethau niwro-ddatblygiadol</p>	<p>Mae'r Rhanbarthau a CAMHS wedi trafod ffurfioli cysylltiadau. Y nod yw gwneud cyngor a mynediad at wasanaethau yn fwy eglur ar gyfer teuluoedd sy'n mabwysiadu.</p> <p>Roeddem wedi gobeithio datblygu taflen ar y cyd, ond mae CAMHS eisoes yn datblygu taflen. Byddwn yn hyrwyddo'r daflen pan gaiff ei chwblhau.</p> <p>Yn y dyfodol, bydd rhieni, plant a phobl ifanc mabwysiadol yn gallu cymryd rhan mewn ymgynghoriadau defnyddwyr gwasanaeth CAMHS.</p>
<p>Gweithredu polisi cyffredin ar gyfer talu cymorth ariannol</p>	<p>Rydym yn dal i weithio ar hyn. Dylai ddigwydd o 1 Ebrill 2018.</p>

Yr hyn a ddywedom	Yr hyn a wnaethom
<p>Gweithio gyda phlant, pobl ifanc a mabwysiadwyr i ddatblygu strategaeth i wella gwaith stori bywyd i blant a fabwysiadwyd yng Nghymru.</p>	<p>Mae'r gwaith hwn yn cael ei ariannu gan ein grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'n mynd yn ei flaen yn dda.</p> <p>Mae'r grŵp sy'n rhedeg y prosiect yn cynnwys mabwysiadwyr, staff mabwysiadu rhanbarthol, asiantaethau gwirfoddol a gweithwyr cymdeithasol gofal plant. Mae'r grŵp yn cael cyngor gan blant a phobl ifanc drwy 'TrafodMabwysiadu'.</p> <p>Rydym wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynnal gweithdy i blant a phobl ifanc a fabwysiadwyd o dan arweiniad 'TrafodMabwysiadu'. • cwblhau fframwaith ar gyfer gwaith taith bywyd a phhecyn cymorth. • adnabod plant i roi cynnig ar y pecyn cymorth newydd gyda hwy. • casglu enghreifftiau o arfer da. Er enghraifft: <ul style="list-style-type: none"> - yn Rhanbarth Canobarth a Gorllewin Cymru, mae'n ofynnol cael deunyddiau taith bywyd cyn i blentyn fynd i'r panel paru. Mae staff mabwysiadu yn gweithio gyda thimau gofal plant ar draws y rhanbarth i helpu sicrhau bod hyn yn digwydd yn dda. Mae Bae'r Gorllewin yn gweithio tuag at hyn hefyd. - yn Rhanbarth Gogledd Cymru, mae grŵp peilot yn barod i brofi'r fframwaith. Mae ei Swyddog Hyfforddi yn datblygu fframwaith hyfforddi lleol ar ei gyfer.

Ffyrdd eraill i wella cymorth mabwysiadu

Canllaw mabwysiadwr i fabwysiadu:

Mae hyn yn rhywbeth yr oedd mabwysiadwyr ei eisiau. Datblygwyd y canllaw gyda chyfreithiwr AFA Cymru ac Ysgol y Gyfraith Prifysgol Caerdydd.

Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth:

Cafodd Cymdeithas Plant Dewi Sant a Phrifysgol Caerdydd gyllid i gymryd gwybodaeth ymchwil a cheisio ei rhoi ar waith. Gallai hyn helpu i drawsnewid sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

Ystadegau ar gymorth mabwysiadu

Cymorth mabwysiadu i blant a leolwyd yn ystod 2016–17

Cafodd mwy na 500 o blant wasanaethau cymorth mabwysiadu eleni ac roedd mwy na 3,100 o drefniadau cyswllt blwch post yn eu lle. Rydym yn gwybod y gall cymorth olygu llawer o bethau, gan gynnwys cymorth ariannol, ymarferol neu wasanaethau therapiwtig; bydd angen ar rai plant gymorth i'w helpu i ddeall pam eu bod wedi cael eu mabwysiadu, a bydd angen help ar rai rhieni i reoli rhai emosiynau ac ymddygiad anodd. Mae ein


data yn awr yn dweud wrthym y lefel o gymorth sydd ar gael i blant a oedd newydd gael eu lleoli eleni yn ogystal â cheisiadau newydd eraill am gymorth a gafwyd.



Tudalen 124

Dyma'r darlun ar gyfer plant a leolwyd eleni


Amrywiodd canran y plant sy'n derbyn cefnogaeth o 10% i 38% ar draws y Rhanbarthau.



Mae hyn yn dod yn gyfanswm o fwy na 77 oherwydd bod rhai plant wedi derbyn mwy nag un math o gymorth.

208 o geisiadau newydd am gymorth mabwysiadu i blant a leolwyd cyn Ebrill 2016


- Yn ogystal â'r uchod, mae hyn yn alw newydd eleni.



Nid oes gennym wybodaeth am Ogledd Cymru


Cafodd pob un o'r 208 o blant asesiad ar gyfer cymorth ar ôl mabwysiadu.

Mae 84 o'r ceisiadau ar waith o hyd, gan mai 124 yn unig sydd wedi'u cwblhau. Mae canlyniadau'r 124 yn dod yn gyfanswm o 129 gan y bydd rhai plant yn cael mwy nag un gwasanaeth.



- 84 o asesiadau ar waith ar ddiwedd y flwyddyn
- Cafodd 107 gymorth anariannol (ee mynediad i therapi a chymorth ymarferol)
- Cafodd 10 gymorth ariannol untro
- Cafodd 12 gymorth ariannol parhaus

Lleoliadau wedi methu



Mae cymorth amserol yn hanfodol er mwyn cadw hyn yn isel.

Mae cymorth amserol hefyd yn gwneud yn siŵr bod y mabwysiadu yn gweithio'n dda ar gyfer y plentyn a'r teulu cyfan.

Mae ein partneriaid asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yn darparu cymorth gwerthfawr.

Cymdeithas Plant Dewi Sant



St David's Children Society

Credwch
mewn plant
Believe in
children



Barnardo's
Cymru

Cymorth i
deuluoedd
sy'n
mabwysiadu

Llinellau Cymorth a Hyfforddiant

adoptionuk

ar gyfer pob teulu sy'n mabwysiadu
for every adoptive family

after
adoption

AFA CYMRU
association for fostering and adoption
cymdeithas ar gyfer maethu a mabwysiadu

357
o ymholiadau dros y
ffôn ac e-bost, gan
weithwyr proffesiynol
ac aelodau o'r
cyhoedd

450+
o weithwyr proffesiynol a
rhieni mabwysiadol yn cael
hyfforddiant, gan gynnwys
mewn gwrthwynebiad
di-drais

Cymorth arall

adoptionuk

ar gyfer pob teulu sy'n mabwysiadu
for every adoptive family

after
adoption

Grwpiau
TrafodMabwysiadu - 90
o blant a fabwysiadwyd a
phobl ifanc yn Ne-Ddwyrain
a De-Orllewin Cymru yn
cwrdd mewn pedwar
grŵp

Grwpiau cymorth
mabwysiadu - 243
achos o bresenoldeb
mewn 31 cyfarfod

Cymorth 1: 1
gan ymarferydd
gwrthwynebiad
di-drais i 55 o rieni
mabwysiadol 70 o
blant

Cymorth 1: 1
i 200 o oedolion a
oedd wedi cael eu
mabwysiadu, rhieni
biolegol neu
berthnasau
biolegol eraill

Ymchwil ynghylch cymorth mabwysiadu

Nod Astudiaeth Mabwysiadu Cymru yw deall mwy am anghenion cymorth teuluoedd mabwysiadol yn ystod tair blynedd gyntaf lleoliad mabwysiadu. Bydd yr ymchwil yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i ni wella cymorth mabwysiadu.

Mae'r tîm ymchwil yn cael ei arwain gan Dr Katherine Shelton, Ysgol Seicoleg, Prifysgol Caerdydd. Mae lincs i gyhoeddiadau ar ei thudalen we y brifysgol ac yn cynnwys:

- Doughty, J., Meakings, S. and Shelton, K.H. (in press, 2017). The legal and administrative processes in adoption: Views and experiences of newly formed adoptive families. *Journal of Social Welfare and Family Law*.
- Anthony, R., Meakings, S., Doughty, J., Ottaway, H., Holland, S., & Shelton, K.H. (2016). Factors affecting adoption in Wales: Predictors of variation in time between entry to care and adoptive placement. *Children and Youth Services Review*, 67, 184-190.
- Meakings, S., Coffey, A. J. and Shelton, K.H. (2016). A study examining the concerns, support needs and experiences of newly formed adoptive families. *Journal of Health Visiting*, 4(11), 2-9.
- Meakings, S., Coffey, A. and Shelton, K.H. (in review, 2017). The influence of adoption on sibling relationships: experiences and support needs of newly formed adoptive families. *British Journal of Social Work*.

Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth sydd eisoes ar gael o'r astudiaeth i gynllunio a gwella cymorth mabwysiadu. Er enghraifft, mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym:

- Mae bron i hanner (47%) o'r plant yn Astudiaeth Mabwysiadu Cymru wedi profi pedwar neu fwy o Brofiadau Plentyndod Anffafriol (ACE) cyn cael eu lleoli i'w mabwysiadu. Rydym yn gwybod bod y profiadau cynnar hyn yn arwain at oblygiadau difrifol ar gyfer nes ymlaen mewn bywyd.
- Dylai cymorth mabwysiadu ddod yn norm, beth bynnag yw oedran y plentyn neu gefndir y mabwysiadwyr.
- Mae angen i rieni sy'n mabwysiadu wybod eu bod yn gymwys i gael cymorth ychwanegol yn yr ychydig fisoedd cyntaf.
- Mae angen i rieni sy'n mabwysiadu wybod bod croeso iddynt ofyn am help yn ddiweddarach.
- Mae angen cymorth ar bawb i reoli'r berthynas sy'n newid pan fo plentyn yn ymuno â theulu, gan gynnwys:
 - brodyr a chwiorydd sy'n cael eu lleoli gyda'i gilydd
 - brodyr a chwiorydd sy'n cael eu lleoli ar wahân
 - plant yn ymuno â'r teulu
 - plant sydd eisoes yn rhan o'r teulu
 - gofawyr maeth blaenorol
- Mae rhai plant yn cael problemau addasiad. Gallai fod angen cymorth arbenigol arnyn nhw a'u teuluoedd.
- Mae angen i bawb ddeall y prosesau cyfreithiol sy'n ymwneud â mabwysiadu, a bydd angen cymorth ar lawer o bobl ar gyfer hyn

BLAENORIAETH 2

Datblygu cronfa ddata newydd ar gyfer Cofrestr Fabwysiadu Cymru

Bydd dwy swyddogaeth i'r gronfa ddata hon:

- cadw mewn cysylltiad â mabwysiadwyr
- dod y Gofrestr Fabwysiadu Cymru

Yr hyn a ddywedom	Yr hyn a wnaethom
<p>Edrych ar yr adolygiad o'r prosiect Cofrestr Fabwysiadu Cymru a'r gronfa ddata.</p> <p>Gwneud yr hyn yr oedd yr adolygiad yn ei argymhell.</p>	<p>Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wneud yn siŵr y bydd unrhyw system newydd yn bodloni ein hanghenion.</p> <p>Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gaffael y system hon yn ystod 2017-18.</p>

HER 1

Lleoli plant yn fwy effeithiol

Yr hyn a ddywedom	Yr hyn a wnaethom
<p>Cynnal Peilot 'Maethu i Fabwysiadu'.</p>	<p>Gweithiom gydag AFA Cymru i ddatblygu canllawiau ymarfer ar gyfer awdurdodau lleol.</p> <p>Roedd y defnydd o'r cynllun yn rhy isel ar gyfer cynllun peilot. Dywedwyd wrthym fod hyn oherwydd anawsterau cyfreithiol. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried newid y cyfreithiau a'r canllawiau i'w gwneud yn haws</p>
<p>Gwneud yn siŵr bod ein canllaw arfer gorau ar gyfer dod o hyd i deuluoedd yn cael ei ddefnyddio.</p>	<p>Cynhaliom weithdai ym mhob un o'r pum Rhanbarth. Daeth staff o'r Rhanbarthau ac awdurdodau lleol i'r gweithdai.</p> <p>Canolbwyntiodd rhai Rhanbarthau ar wella systemau ar gyfer olrhain a monitro canfod teuluoedd.</p> <p>Mae y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd yn awr yn cynhyrchu adroddiad misol o leoliadau a wnaed a phlant sy'n dal i aros. Mae hyn yn helpu gyda gwaith canfod teuluoedd i blant sy'n dal i aros.</p> <p>Eleni defnyddiom ddiwrnod Gweithgaredd Mabwysiadu i gefnogi paru am y tro cyntaf. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn. Nododd y digwyddiad nifer o gysylltiadau posibl sy'n cael eu harchwilio.</p>
<p>Dod o hyd i gyfleoedd i gymryd rhan mewn trafodaethau gyda'r llysoedd/y farnwriaeth am rôl mabwysiadu o fewn y llysoedd teulu.</p>	<p>Mae'r tîm canolog yn hysbysu'r Barnwyr Arweiniol am ddatblygiadau yng Nghymru. Ar gais Barnwr Arweiniol y Gymraeg, hyrwyddom y defnydd o geisiadau dwyieithog.</p>

Gwaith arall i leoli plant yn fwy effeithiol

Datblygodd Bae'r Gorllewin raglen Bontio/Symud ymlaen. Nod y rhaglen yw gwella sut mae ymarferwyr a gofalywyr maeth yn gweithio gyda phlant sy'n cael eu lleoli i'w mabwysiadu. Mae gan y Rhanbarth 'hyrwyddwyr pontio'. Mae eu dull yn cael ei gyflwyno ar draws yr awdurdodau lleol, yn yr ardal honno. Rydym yn annog rhanbarthau eraill i ddefnyddio dull tebyg.

Ail-edrychodd Bae'r Gorllewin ar sut y maent yn gwneud ceisiadau gorchymyn mabwysiadu. Y nod yw cael proses nad yw'n caniatáu i benderfyniadau mabwysiadu lithro.

Ystadegau ar leoli plant yn fwy effeithiol

Cafodd llai o blant (304) eu lleoli i'w mabwysiadu yng Nghymru yn ystod 2016-17.


Mae hyn oherwydd bod nifer y gorchymynion lleoli wedi gostwng 38% rhwng 2013 a 2015.

Mae nifer y gorchymynion lleoli wedi dechrau codi (i fyny 15% yn 2016-17), felly rydym yn disgwyl y bydd mwy o blant yn cael eu lleoli ar gyfer mabwysiadu y flwyddyn nesaf.

Mae plant yn wynebu llai o oedi yn awr nag yr oeddent cyn i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gael ei ffurfio. Fodd bynnag, nid ydym wedi cyflawni'r amserlen ddymunol:

- Yr amser cyfartalog ar gyfer plentyn o fynd i mewn i'r system ofal i gael ei leoli i'w fabwysiadu yw 15.6 mis yn awr (sy'n dal yn uwch na'r 13 mis rydym am ei gyflawni).

Cyfartaledd mewn misoedd o'r dyddiad derbyn gofal mwyaf diweddar i'r dyddiad lleoli ar gyfer mabwysiadu



- Yr amser cyfartalog o orchymyn lleoli i gael ei leoli i'w fabwysiadu yw 8.2 mis

Mae ein Rhanbarthau yn gwneud yn well o ran lleoli grwpiau o frodyr a chwiorydd a phlant ag anghenion cymhleth. Mae'n dal i gymryd mwy o amser na'r cyfartaledd i'r plant hyn gael eu lleoli i'w mabwysiadu. Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys:

- cymhlethdod anghenion y plentyn.
- anhawster dod o hyd i fabwysiadwyr i gymryd brodyr a chwiorydd.
- cysylltiadau nad ydynt yn parhau.
- heriau cyfreithiol, weithiau ar ôl i'r Gorchymyn Lleoli gael ei roi.


Mae llai o blant yn cael eu cynllun wedi'i newid o fabwysiadu i ffordd arall o roi iddynt gartref parhaol. Mae hyn wedi gostwng o 78 o blant yn 2014-15 i ddim ond 21 yn 2016-17. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cyrraedd y targed a osodwyd gennym.

Fodd bynnag, ar ddiwedd y flwyddyn:


- mae nifer y plant lle mae'r cynllun ar eu cyfer yw mabwysiadu wedi codi.
- mae gan 80% o'r rhain orchymyn lleoli.
- mae mwy o blant ar Gofrestr Mabwysiadu Cymru y maent yn annhebygol o gael eu paru gyda'r mabwysiadwyr sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae hyn yn dal i fod yn well na'r sefyllfa cyn i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gael ei greu, ond rydym yn gobeithio gweld y niferoedd yn lleihau ymhellach.

Nifer y plant â gorchymyn lleoli sy'n cael cynllun sefydlogrwydd wedi'i newid o fabwysiadu mewn adolygiad PDG







Nifer y plant â phenderfyniad SBP mabwysiadu gan asiantaeth nad ydynt eto wedi'u lleoli ar gyfer mabwysiadu



Plant yn aros ar Gofrestr Fabwysiadu Cymru ar 31 Mawrth 2017

Mae hyn ynghyd â chynnydd yn nifer y plant ar Gofrestr Mabwysiadu Cymru ar ddiwedd y flwyddyn.



- Ni allai tua hanner y plant gael eu paru â'r hyn y gallai mabwysiadwyr ei gynnig.
- Roedd mwy o grwpiau o frodyr a chwiorydd o dri.
- Roedd llai o grwpiau o frodyr a chwiorydd o ddau.
- Roedd mwy o blant ag anghenion ychwanegol yn aros, beth bynnag eu hoed, ac eithrio plant rhwng dwy a phedair oed.

Roedd 68 o fabwysiadwyr ar gael, ond nid oeddent yn gallu cael eu paru â'r plant hyn.

Bydd anghenion y plant hyn yn parhau i lywio ein strategaeth recriwtio.

Rydym yn treialu Link-maker ar gyfer plant nad ydynt yn gallu cael eu paru yn eu rhanbarth neu drwy Gofrestr Fabwysiadu Cymru.

Recriwtio'r mabwysiadwyr sy'n gallu cwrdd ag anghenion y plant sydd ar gael

Yr hyn a ddywedom	Yr hyn a wnaethom
<p>Cyflwyno'r strategaeth ddiwygiedig ar gyfer recriwtio a dargedir.</p>  <p>Adoption: See the whole child</p> <p>"I had problems when I was born because my mum used drugs and alcohol when she was pregnant."</p> <p>Jordan's new parents are helping him cope with the after effects, but there are others like him still waiting to be adopted. With our support, you could make a difference to a child like Jordan. Contact us.</p> <p>www.adoptcymru.com</p>	<p>Defnyddiom wybodaeth am blant sy'n aros i gael eu paru i dargedu recriwtio tuag at fabwysiadwyr addas.</p> <p>Lansiwyd ymgyrch gyda chyfres o ddeunyddiau marchnata, '#GweldYPlentynCyfan', ym mis Gorffennaf 2016.</p> <p>Mae 'sgript' Cymru gyfan, fel bod darpar fabwysiadwyr yn cael darlun realistig o anghenion plant sy'n aros i'w mabwysiadu o'r cychwyn cyntaf.</p> <p>Mae ymholiadau gan ddarpar fabwysiadwyr am blant anos eu lleoli yn cael sylw yn gyntaf.</p> <p>Dyweddodd ddau Ranbarth fod darpar fabwysiadwyr yn fwy gwybod.</p> <p>Adolygwyd yr ymgyrch a chynlluniwyd mwy o weithgareddau recriwtio ar gyfer 2017-18.</p> <p>Gweithiodd ein partneriaid Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ar gynllun recriwtio arbenigol. Mae hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach ar ôl trafodaethau gyda'r Rhanbarthau.</p>
<p>Cwblhau a defnyddio model recriwtio dau gam i ddarpar fabwysiadwyr yng Nghymru.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori y bydd ein cynigion yn gofyn am newid yn y gyfraith.</p>
<p>Ystyried sut yr ydym yn cefnogi ac yn gweithio gyda mabwysiadwyr sy'n aros am leoliadau.</p>	<p>Mae llai o fabwysiadwyr yn aros am leoliadau.</p> <p>Mae dal i fod diffyg cyfatebiaeth rhwng mabwysiadwyr sy'n aros a phlant sydd angen eu mabwysiadu.</p> <p>Bu'r Rhanbarthau a'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yn cefnogi mabwysiadwyr sy'n aros i ddeall anghenion plant sydd angen, neu sy'n debygol o fod angen, eu mabwysiadu.</p>

Ystadegau ar recriwtio'r mabwysiadwyr cywir


Ymholiadau cychwynnol

Mae nifer yr ymholiadau cychwynnol yn dal i gynyddu. Eleni, roedd 1,278 o ymholiadau cychwynnol.


Mae 99% o ymholiadau cychwynnol yn cael ymateb o fewn pum diwrnod gwaith.

Mae cyfran uchel o ymholiadau gan bobl sydd am fabwysiadu plant ifanc iawn a/neu blant unigol ond mae'r plant hyn yn gyfran is o'r rhai sy'n aros am leoliadau.

Nifer yr ymholiadau cychwynnol




Mabwysiadwyr a gymeradwywyd



Wedi'i addasu o'r nifer a gyhoeddwyd yn flaenorol


% yr ymholiadau cychwynnol a gafodd ymateb o fewn pum diwrnod gwaith



Amserlen

Mae'r amser o'r ymholiad cychwynnol i gymeradwyaeth wedi ymestyn i 11.1 mis (roedd yn 8.6 mis yn 2015–16). Roedd hyn yn ymwneud mwy â dewisiadau mabwysiadwyr na'r broses ei hun. Ar gyfartaledd, roedd pum mis rhwng ymholiad cychwynnol mabwysiadwyr a'u cais ffurfiol i fabwysiadu.

Amser cyfartalog i fabwysiadwyr gynyddu o'r ymholiad cychwynnol i benderfyniad asiantaeth i gymeradwyo




Cymeradwyaethau

Cafodd lai o fabwysiadwyr eu cymeradwyo yn 2016–17. Roedd hyn oherwydd ein bod yn targedu recriwtio i anghenion plant ac yn anelu at leihau nifer y mabwysiadwyr sy'n aros.

Ar ddiwedd y flwyddyn:

- roedd 68 o fabwysiadwyr ar gael ar Gofrestr Fabwysiadu Cymru
- dim ond 26% o fabwysiadwyr fyddai'n ystyried grwpiau o frodyr a chwiorydd
- mae mwy o fabwysiadwyr yn fodlon ystyried plant hŷn. Fodd bynnag mae'r rhan fwyaf o blant hŷn yn rhan o grŵp o frodyr a chwiorydd.

Mabwysiadwyr ar gael 31/03/2017 mewn %



Sicrhau bod y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cael ei redeg yn dda

Yr hyn a ddywedom	Yr hyn a wnaethom
<p>Parhau i gasglu data am fabwysiadu a gwaith y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.</p> <p>Gweithio tuag at dargedau a bennwyd gennym.</p>	<p>Cynhyrchwyd llyfryn yn esbonio sut i gasglu'r data sydd eu hangen arnom, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu casglu yr un ffordd ar draws Cymru.</p> <p>Bob tri mis, cynhyrchwyd adroddiad Cymru o'r data.</p> <p>Ddwywaith y flwyddyn, cynhyrchwyd adroddiadau Rhanbarthol.</p> <p>Defnyddiwyd yr adroddiadau yn genedlaethol ac yn rhanbarthol i wirio pa mor dda rydym yn ei wneud.</p> <p>Gofynnwyd i bobl ddechrau casglu data am wasanaethau cymorth mabwysiadu. Yr adroddiad blynyddol hwn yw'r cyntaf i gael data am gymorth mabwysiadu.</p> <p>Mae rhanbarthau yn gwella eu systemau eu hunain o gasglu data. Ni allai rhai rhanbarthau roi'r holl ddata yr ydym yn gofyn amdanynt i ni.</p> <p>Buom yn gweithio gydag Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ar ffyrdd o gasglu data am eu gwaith cymorth mabwysiadu.</p>
<p>Datblygu strategaeth gweithlu Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer 2017–18 ymlaen.</p> <p>Byddwn yn gwneud hyn gyda'r Rhanbarthau a rheolwyr hyfforddiant.</p>	<p>Ymgynghorwyd â'r Rhanbarthau, ac ysgrifennon ni bapur cychwynnol.</p> <p>Mae hyn yn ei gwneud yn glir pa hyfforddiant a datblygiad sydd ei angen ar gyfer yr holl staff sy'n rhan o waith mabwysiadu, pa bynnag sefydliad y maent yn gweithio iddo.</p> <p>Cynhaliwyd cynhadledd lwyddiannus iawn ym mis Mawrth, 'Gwella Canlyniadau mewn Mabwysiadu - Symud ymlaen a rheoli perthnasoedd'. Roedd dros 120 o gynrychiolwyr. Cafodd ei hariannu gan ein cymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Buom yn siarad â gweithwyr proffesiynol a mabwysiadwyr am gynorthwyo plant yn ystod cyfnodau pontio, yn enwedig o ofal maeth i fabwysiadu.</p> <p>Roedd cyflwyniadau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • tad mabwysiadol yn siarad am ei brofiadau. • Lynne Cudmore ar 'gadw'r plentyn mewn golwg' yn ystod cyfnodau pontio. • Dr Ruth Sellers ar ddylanwad perthnasoedd teuluol. <p>Roedd rhiant biolegol wedi cymryd rhan mewn gweithdy. Roedd yr adborth yn gadarnhaol dros ben.</p> <p>Cynhaliodd Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru gynhadledd</p>

Yr hyn a ddywedom	Yr hyn a wnaethom
	<p>lwyddiannus iawn â nifer dda yn bresennol ym mis Ionawr 2017, 'Cynllunio Sefydlogrwydd – Cyflawni'r canlyniadau gorau i blant a fabwysiadwyd a'u teuluoedd'. Cafodd ei anelu at fabwysiadwyr a gweithwyr proffesiynol. Roedd y gynhadledd yn cynnwys safbwyntiau gan fabwysiadwr, plant a phobl ifanc yn ogystal â gweithdai ar bynciau megis chwarae cadarnhaol, gwaith hanes bywyd, ymlyniad a chymorth mabwysiadu.</p>
<p>Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i ddylanwadu ar ddatblygu gweithlu sy'n 'ymwybodol o sefydlogrwydd/ mabwysiadu'.</p>	<p>Sefydlwyd cysylltiadau gyda Phrif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru a'u Cyfarwyddwr y Gweithlu a Gwella.</p> <p>Rydym yn rhan o'r grŵp Gweinidogol 'Gwella Canlyniadau'.</p> <p>Mae'r rhain yn rhoi cyfle i ni ddylanwadu ar ddatblygu'r gweithlu a chysylltu â'r adolygiad o hyfforddiant gwaith cymdeithasol.</p>
<p>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymateb cadarnhaol i 'Ymchwiliad dilynol i Wasanaethau Mabwysiadu yng Nghymru' diweddar y Cynulliad Cenedlaethol.</p>	<p>Cytunodd ein Bwrdd Llywodraethu ein hymateb ym mis Medi.</p> <p>Byddwn yn gweithio trwy'r argymhellion gyda Llywodraeth Cymru.</p>
<p>Sicrhau cyllideb Tîm Canolog addas.</p>	<p>Cafodd hyn ei sicrhau ar gyfer 2017-18 ymlaen. Bydd ein costau craidd yn cael eu bodloni.</p> <p>Mae cyllidebau yn yr holl Ranbarthau dan bwysau. Mae rhai wedi cael eu rhewi neu eu lleihau. Bydd hyn ag oblygiadau ar gyfer gwaith y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.</p>
<p>Diweddarau a defnyddio'r strategaeth ar gyfer ymgysylltu â mabwysiadwyr, plant a phobl ifanc ac oedolion eraill sy'n defnyddio gwasanaethau mabwysiadu.</p> 	<p>Datblygwyd strategaeth ymgysylltu i gyd-fynd â'n gwaith ar gyfer 2016–17.</p> <p>Sefydlodd Rhanbarth Gogledd Cymru a Rhanbarth y De-ddwyrain ddiwrnodau hwyl i'r teulu gyda chyfleoedd yn ystod y dydd i ymgynghori â mabwysiadwyr ar faterion cenedlaethol a rhanbarthol.</p> <p>Daeth dros 100 o deuluoedd, a chawsom ni a'r mabwysiadwyr y dyddiau'n ddefnyddiol ac yn hwyl.</p> <p>Dyma oedd y tro cyntaf i Ranbarth Gogledd Cymru drefnu digwyddiad fel hyn, ac maent yn bwriadu cynnal digwyddiad tebyg yn 2017–18.</p> 

Yr hyn a ddywedom	Yr hyn a wnaethom
	<p>Rhoddodd y diwrnodau hwyl i'r teulu adborth cadarnhaol: <i>'ein gweithiwr cymdeithasol 'ardderchog'- gwyddom y gallwn godi'r ffôn ar unrhyw adeg. Sesiynau paratoi a hyfforddiant yn ardderchog</i> <i>Hyfforddiant a pharatoi yn ardderchog</i> <i>Grŵp cymorth mabwysiadu – fforwm cyfeillgarwch a chyingor rhagorol i rieni a phlant'.</i></p>
	<p>Rhoddodd y diwrnodau hwyl i'r teulu hefyd heriau i ni ganolbwyntio arnynt ar gyfer 2017–18: <i>Ansawdd y gwaith stori bywyd</i> <i>Siarad â phlant a fabwysiadwyd am eu brodyr a'u chwiorydd</i> <i>Mwy o gefnogaeth ar gamau llys</i> <i>Gwell cymorth ar ôl mabwysiadu</i> <i>Angen datrys Maethu i Fabwysiadu fel y gellir lleoli plant dilynol yn gynt</i> <i>Addysg – codi ymwybyddiaeth o anghenion plant a fabwysiadwyd</i></p> <p>Dechreuom weithio gyda phlant, pobl ifanc a mabwysiadwyr gan ddefnyddio 'cydgynhyrchu'. Defnyddiwyd hyn ar gyfer y gwaith taith bywyd ac wrth ddatblygu ymateb i'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol.</p> <p>Cafodd y dull hwn ei gefnogi'n dda. Mae barn plant a phobl ifanc wedi cael ei bwydo i mewn drwy TrafodMabwysiadu.</p> <p>Defnyddiwyd peth o'n cyllid grant i ddatblygu tudalennau gwe i bobl ifanc ac app person ifanc. Rydym yn anelu at 'fynd yn fyw' yn 2017–18.</p> <p>Mae'n galonogol bod ymgysylltu yn dod yn norm yn y Rhanbarthau. Dechreuodd Bae'r Gorllewin a Chanolbarth a Gorllewin Cymru grwpiau ffocws i ddatblygu gwasanaethau.</p> 

Canmoliaeth a Chwynion

Canmoliaeth

Dyweddodd bedwar Rhanbarth wrthym am ganmoliaeth. Adroddwyd 77 canmoliaeth oddi wrth:

- weithwyr proffesiynol.
- perthnasau biolegol.
- mabwysiadwyr.

Roedd y ganmoliaeth yn cynnwys:

- ansawdd y cymorth drwy'r broses ymgeisio.
- profiadau da gyda'r panel mabwysiadu.
- llysoedd yn canmol ansawdd y gwaith.

Mae Rhanbarth y De-ddwyrain yn adrodd am ganmoliaeth am eu trefniadau newydd ar gyfer asesu cymorth ar ôl mabwysiadu.

Cwynion

Mae pobl sy'n gwneud cais i fabwysiadu yn cael gwybodaeth am sut i gwyno. Mae pobl eraill sy'n defnyddio gwasanaethau mabwysiadu hefyd yn cael gwybodaeth am sut i gwyno.

Yn 2016–17, cafodd deg o gwynion eu hadrodd i'r Rhanbarthau. Helpodd y tîm canolog ymateb i rai o'r rhain. Ymdriniwyd â naw o gwynion ar y cam anffurfiol neu gam un. Aeth un gwyn i'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol.

Roedd materion yn cynnwys:

- penderfyniadau ynghylch a allai cais barhau
- anghytuno â phenderfyniadau
- oedi
- gwasanaethau cymorth mabwysiadu

Cyllid

Cyllidebau ar gyfer y Rhanbarthau a'r tîm Canolog

Dyma'r flwyddyn gyntaf i ni gael gwybodaeth am gyllidebau'r Rhanbarthau a'r tîm Canolog.

Cyllidebau'r Rhanbarthau a'r tîm canolog ar gyfer 2016–17

Canolbarth Cymru	Gogledd Cymru	De-ddwyrain Cymru	Y Fro y Cymoedd a Chaerdydd	Bae'r Gorllewin	Tîm Canolog	Cyfanswm
£915,495	£1,494,042	£1,345,940	£1,270,330	£2,847,800	£272,000	£8,145,607

Gellir egluro peth o'r gwahaniaeth rhwng y Rhanbarthau fel a ganlyn:

- Nid yw pob Rhanbarth yn darparu'r un swyddogaethau. Er enghraifft:
 - mae cyllideb Bae'r Gorllewin yn uwch oherwydd ei fod yn rheoli cyllidebau staffio, cymorth mabwysiadu a ffioedd rhyngasiantaeth ar gyfer yr awdurdodau lleol.
 - Mae'r Fro, y Cymoedd a Caerdydd, De-ddwyrain Cymru a Bae'r Gorllewin yn asesu anghenion cymorth mabwysiadu ac yn darparu mwy o wasanaethau yn uniongyrchol.

- Nid oes gan bob Rhanbarth yr un llwyth gwaith. Mae'r llwyth gwaith yn uwch yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd, Bae'r Gorllewin a De-ddwyrain Cymru.

Ar draws Cymru, mae cyllidebau dan bwysau. Mae rhai Rhanbarthau yn cael eu gwasanaethau wedi'u hadolygu ac efallai bydd gan bob un ohonynt lai o gyllideb yn y dyfodol.

Cyllidebau'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol

Rhannodd tair o'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ddau grant Trydydd Sector Llywodraeth Cymru, sef cyfanswm o £350,000.

Mae AFA Cymru (Cymdeithas ar gyfer Maethu a Mabwysiadu) yn cael cyllid i gefnogi'r sector cyfan.

Mae'r rhan fwyaf o'r cymorth grant mabwysiadu ar gyfer:

- recriwtio ac asesu mabwysiadwyr
- paru a lleoli plant
- cymorth mabwysiadu

Rydym yn gweithio gyda'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol i wneud yn siŵr bod y grantiau y maent yn eu cael yn helpu i gyflawni blaenoriaethau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Grant Datblygu Llywodraeth Cymru

Eglurwyd i Lywodraeth Cymru pam bod angen arian ychwanegol arnom ar gyfer y Fframwaith ar gyfer Cymorth Mabwysiadu. Rhoddodd Llywodraeth Cymru grant o £90,000.

Cafodd y darnau canlynol o waith eu cynnal gyda'r grant o £90,000. Heb y grant, ni fyddai dim o'r gwaith hwn wedi bod yn bosibl.

Gwario'r Grant Datblygu



Ein blaenoriaethau ar gyfer 2017-18

Ein gwaith craidd yw:

- cynyddu'r ystod o gartrefi mabwysiadol sydd ar gael i gwrdd ag anghenion plant y mae mabwysiadu yw'r cynllun ar eu cyfer.
- cefnogi plant ac oedolion sy'n cael eu heffeithio gan oblygiadau gydol oes mabwysiadu.

Byddwn yn parhau â'n gwaith craidd.

Byddwn yn parhau i wneud y rhan fwyaf o'n gwaith trwy ranbarthau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol wedi'i hamlinellu yn y cyflwyniad.

Bydd yn cymryd amser ac ymrwymiad gan bawb i gyflawni'r weledigaeth hon.

Mae gennym ddwy flaenoriaeth ar gyfer 2017-18.

Blaenoriaeth 1: Parhau i wella cymorth mabwysiadu

Byddwn yn:

- cyflwyno'r achos dros arian ychwanegol i gyllido gwelliannau i gymorth mabwysiadu.
- defnyddio'r fframwaith newydd ar gyfer gwaith taith bywyd.
- parhau i weithio gydag iechyd ac addysg fel bod plant a fabwysiadwyd a'u teuluoedd yn cael y cymorth cywir.

Blaenoriaeth 2: Lleoli plant yn dda

Byddwn yn:

- canolbwyntio ar recriwtio mabwysiadwyr ar gyfer y plant sy'n debygol o fod angen eu mabwysiadu.
- anelu at wella'r holl brosesau.

Gwneud i hyn ddigwydd

I wneud i hyn ddigwydd, bydd angen i ni:

- weithio i newid cyfreithiau a pholisïau, lle mae angen gwneud hynny.
- parhau i ddefnyddio cydgynhyrchu fel un o'n ffyrdd ar gyfer gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth, a datblygu sut mae eu barn yn llywio ein trefniadau llywodraethu.
- sicrhau bod gennym y trefniadau cywir yn eu lle i oruchwylio'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.
- annog pawb y mae eu gwaith yn effeithio ar deuluoedd sy'n mabwysiadu, darpar fabwysiadwyr a phlant sy'n derbyn gofal i wybod mwy a chael mwy o sgiliau ynghylch sefydlogrwydd a mabwysiadu.
- Anelu at welliant parhaus yn gyffredinol.



PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT

28^{ain} O FEDI 2017

Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2016/17 – Drafft

- Adroddiad Cynnydd yr Ail Flwyddyn ar y Strategaeth Gorfforaethol 2015-20
(Yn cynnwys ein Crynodeb o'r Adroddiad Blynyddol 2016/17)
- Adroddiad Blynyddol Llawn 2016/17

Ystyried y materion canlynol a chyflwyno sylwadau arnynt:

Cymeradwyo cynnwys yr adroddiadau drafft :-

- Adroddiad Cynnydd yr Ail Flwyddyn ar y Strategaeth Gorfforaethol 2015-20
(Yn cynnwys ein Crynodeb o'r Adroddiad Blynyddol 2016/17)
- **Detholiad o'r Adroddiad Blynyddol Llawn 2016/17 sydd yn berthnasol i Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant**
 - Cyflwyniad
 - Nod C1 – Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd
 - Canlyniad D – Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
 - Nod E5 Diogelu plant
 - Atodiadau

Rhesymau:

- O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) mae'n rhaid i ni gyflawni'r canlynol:
"Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar berfformiad y gorffennol erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn."

Angen penderfyniad y Bwrdd Gweithredol : **OES - 23ain Hydref, 2017**

Angen penderfyniad y Cyngor: **NAC OES**

Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am y Portffolio:

Cyng. Gareth Jones (Addysg a Phlant)

Y Gyfarwyddiaeth:	Swyddi:	Rhifau Ffôn / Cyfeiriadau E-Bost:
Addysg a Phlant		
Enw Pennaeth y Gwasanaeth		
Aeron Rees	Pennaeth Cwricwlwm a Lles	01267 246532 JARees@sirgar.gov.uk
Andi Morgan	Pennaeth Gwasanaethau Addysg	01267 246645 AndiMorgan@sirgar.gov.uk
Stefan Smith	Pennaeth Gwasanaethau i Blant	01267 246530 SJSmith@sirgar.gov.uk
Awdur yr Adroddiad:		
Dave Astins	Rheolwr Datblygu Strategol	01267 246426 DAstins@sirgar.gov.uk

EXECUTIVE SUMMARY

EDUCATION & CHILDREN

SCRUTINY COMMITTEE

28th SEPTEMBER 2017

Draft - Carmarthenshire County Council's Annual Report for 2016/17

- 2nd Year's progress report on the Corporate Strategy 2015-20 (Including our Summary Annual Report 2016/17)
- Full Annual Report 2016/17

BRIEF SUMMARY OF PURPOSE OF REPORT

2nd Year's progress report on the Corporate Strategy 2015-20 (Including our Summary Annual Report 2016/17)

- When we published the Corporate Strategy 2015-20 we promised to conduct an annual progress report and we set out a set 24 Outcome measures to judge our progress against

(The Corporate Strategy will be reviewed for 2018/19 as the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 states that we must incorporate our Well-being Objectives within the Corporate Strategy)
- By law we also have to publish a summary and full Annual Report
- It makes sense to combine the Corporate Strategy progress and summary report into one document to avoid duplication and align plans and reports
- In the recent WAO Annual Improvement Report they found that our combination of a short summary and a full version – gave all the information needed.

Full Annual Report 2016/17

- In previous years we combined Annual Reporting and Improvement Planning (ARIP) into a single document. This year we separated them because the new Well-being of Future Generations Act required the publication of our Well-being Objectives by the 31st March, and it made sense to incorporate our Improvement Plan within that. We could not have produced an Annual Report before the years end.
- In the future we will continue to integrate our Improvement Plan and Well-being Objectives in a single plan – looking forward. We will also aim to integrate the Annual reporting of both the Improvement Plan and Well-being Objectives in a single report.
- By law we have to publish a full Annual Report
- 2016/17 end of year progress on our Key Improvement Objective Priorities are incorporated into this document
- Progress on the WAO Corporate Assessment Proposals for Improvement are incorporated into the document.

DETAILED REPORT ATTACHED?

YES

IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report.

Signed: Aeron Rees - Head of Learner Programmes
 Andi Morgan - Head of School Effectiveness
 Stefan Smith - Head of Children's Services

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
YES	YES	YES	NONE	NONE	NONE	NONE
1. Policy, Crime & Disorder and Equalities						
<ul style="list-style-type: none"> The Annual Report is aligned to our Integrated Community Strategy Outcomes & Goals. 						
2. Legal						
<ul style="list-style-type: none"> We had to publish our Well-being Objectives by the 31st March and we incorporated our Improvement Plan for the year ahead in that publication. In previous years we combined Annual Reporting and Improvement Planning into a single document to meet the Local Government Measure requirements. This year we have had to separate them. 						
3 Finance						
See the Making Better use of Resources theme						

CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below:

Signed: Aeron Rees - Head of Learner Programmes
 Andi Morgan - Head of School Effectiveness
 Stefan Smith - Head of Children's Services

- 1. Local Member(s) – N/A**
- 2. Community / Town Councils – N/A**
- 3. Relevant Partners – N/A**
- 4. Staff Side Representatives and other Organisations** - All Departments have been consulted and have had the opportunity to provide comments on their performance and progress.

Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information

List of Background Papers used in the preparation of this report:

THESE ARE DETAILED BELOW:

Title of Document	Locations that the papers are available for public inspection
The Local Government Measure (Wales) 2009	Welsh Government\Final part 1 guidance
Corporate Strategy 2015 -2020	Corporate Strategy 2015-2020

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Carmarthenshire County Council

Second year progress report

on the Corporate Strategy

for 2015-2020

Including our Summary Annual Report 2016/17

OCTOBER 2017



Contents

Introduction.....	2
Progress at a Glance.....	4
Making Better Use of Resources.....	6
Building a Better Council.....	8
People in Carmarthenshire are healthier.....	10
People in Carmarthenshire fulfill their learning potential.....	12
People who live, work and visit Carmarthenshire are safe and feel safer.....	14
Carmarthenshire’s communities and environment are sustainable.....	16
Carmarthenshire has a stronger and more prosperous economy.....	18
You Said, We Did.....	20
Appendices.....	21

**If you require this document in large print, audio tape or Braille,
please contact 01267 224486**

Introduction

When we signed up with our partners to the Integrated Community Strategy for Carmarthenshire, the Council aligned its internal plans to maximize its contribution to the agreement. The vision is for a Carmarthenshire that enables people to live healthy and fulfilled lives by working together to build strong, bilingual and sustainable communities.

5. Staff Side Representatives and other Organisations – Staff side representatives and other organisations will be consulted during the formal consultation period.

Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information List of Background Papers used in the preparation of this report:

Title of Document	File Ref No. / Locations that the papers are available for public inspection
Strategic Outline Programme 21 st Century Schools	Strategic Outline Programme 21 st Century Schools
Carmarthenshire's Welsh in Education Strategic Plan 2014-2017	http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?lang=en
MEP Biennial Review	www.carmarthenshire.gov.uk Executive Board 20 th June 2016

Yr Adran Addysg a Phlant

Ein Gweledigaeth....Cymuned yw Sir Gaerfyrddin lle mae'r plant yn ddiogel ac yn cael eu meithrin, a lle rhoddir cefnogaeth i ddysgwyr o bob oedran gyflawni eu potensial addysgol llawn

Ymgynghoriad ar y cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gors-las o 110 i 210.

DOGFEN YMGYNGHORI

Gareth Morgans

Cyfarwyddwr – Yr Adran Addysg a Phlant



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Adain Gwasanaethau Moderneiddio

Simon Davies, Rheolwr Gwasanaethau Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras,
mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran
Addysg a Phlant

Ffôn: 01267 246618

E-bost: aaprma@sirgar.gov.uk

Rhagair

Fel rhan o'i rwymedigaeth statudol i adolygu nifer a mathau'r lleoedd sydd ar gael yn ei ysgolion, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu rhaglen eang ei chwmpas a luniwyd i wella adeiladau ysgolion ac i hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r polisïau a sefydlwyd gan y Cyngor Sir sy'n cwmpasu'r angen i ddarparu gwasanaethau sy'n cyrraedd safonau clir – o ran cost ac ansawdd – a hynny yn y modd mwyaf darbodus ac effeithiol. Yn ein hymgyrch i wella'n barhaus y gwasanaethau sydd ar gael i bob dysgwr, mae'n ofynnol ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r Cyngor, a pharhau i weithio mewn partneriaeth â phawb sydd â chyfraniad i'w wneud i'r broses ddysgu ac i lesiant y plant a'u teuluoedd. Bydd angen i ysgolion y dyfodol fod yn ganolbwynt ar gyfer ystod eang o wasanaethau a drefnwyd yn bwrpasol i fodloni anghenion y gymuned mewn modd cydgysylltiedig.

Yn ffodus iawn mae gan Sir Gaerfyrddin lawer o athrawon dawnus iawn, ond mae'r newidiadau parhaus a wneir i'r cwricwlwm yn rhoi pwysau mawr ar eu sgiliau i fodloni galwadau hynod amrywiol pob plentyn. Er mor bwysig yw'r prosesau dysgu a'r sgiliau addysgu, mae'n hanfodol fod gan athrawon wybodaeth drylwyr am bynciau os yw dysgwyr, â'u hamrywiol ddoniau mewn gwahanol feysydd, i ddarganfod eu galluoedd a'u datblygu i'r eithaf.

Mae disgwyl i'r ysgolion hynny a ddyluniwyd i fodloni'r galwadau presennol ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddulliau addysgu sy'n ysbrydoledig ac o safon uchel. Wrth gynllunio darpariaeth newydd bydd yn bwysig sicrhau bod ein hysgolion yn cynnwys yr offer priodol i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol, datblygu cynaliadwy, cyfleoedd cyfartal a dwyieithrwydd. Yn ymarferol, mae gofyn inni sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu patrymau newidiol y boblogaeth a bod ysgolion yn y manau iawn a bod ganddynt adeiladau a chyfleusterau sy'n addas i ddiwallu anghenion pob dysgwr yn yr unfed ganrif ar hugain.

Bydd yr ymgynghori'n dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnwys partïon penodol sydd â diddordeb. Bwriedir i'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hon egluro'r cynigion ynghylch eich ysgol a chynorthwyo'r broses ymgynghori.



Gareth Morgans

Cyfarwyddwr – Yr Adran Addysg a Phlant

Rhestr Byrfoddau

ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
ND	Nifer derbyn
CSC	Cyngor Sir Caerfyrddin
CC	Cynradd Cymunedol
DFf	Dwy Ffrwd
CS	Cyfrwng Saesneg
Estyn	Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
CALL	Cyferwerth ag Amser Llawn
ALI	Awdurdod Lleol
MCYC	Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru
RhMA	Rhaglen Moderneiddio Addysg
NOR	Nifer y disgyblion ar y gofrestr
CYBLD	Data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
RhA	Rhan-amser
WESP	Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
LIC	Llywodraeth Cymru
CC	Cyfrwng Cymraeg

Cynnwys

Rhif	Pwnc	Tudalen
1.	Rhagarweiniad	6
2.	Y Cyd-destun – y Trefniadau Presennol (<i>Status quo</i>)	7
3.	Gwerthusiad o'r Trefniadau Presennol	14
4.	Yr Amcanion	17
5.	Dewisiadau ar gyfer Newid	19
6.	Y Cynnig	22
7.	Y Broses Statudol	26
Atodiad A	Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned	30
Atodiad B	Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg	32
Atodiad C	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	33
Atodiad D	Proffil Ardal	40
Atodiad E	Profforma Ymateb	45

1. Rhagarweiniad

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar Gyngor Sir Caerfyrddin i adolygu nifer a math yr ysgolion sydd ganddo yn yr ardal ac a yw'n llwyddo ai peidio i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddarparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Fel rhan o'r broses hon mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran holl ysgolion cynradd y Sir. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ynghylch y trefniadau addysg yn y dyfodol yn ardal Gors-las. Mae'r cynigion ynghylch newid a gaiff eu nodi yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r amcan tymor hir hwnnw.

Nod y ddogfen hon yw rhoi hwb i'r broses ymgynghori drwy egluro'r dewis a ffafrir gan yr Awdurdod ar gyfer darparu addysg gynradd yn y dyfodol i ddisgyblion ardal Gors-las. Mae'r ddogfen yn cynnig cyfle i ymgynghoreion gyflwyno unrhyw sylwadau neu gynigion eraill yr hoffent iddynt gael eu hystyried.

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru fel y'u datganwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2013). Bydd yn cynnwys y bobl y pennwyd bod ganddynt fuddiant yn y mater, gan gynnwys llywodraethwyr a staff yr ysgolion, y rhieni a'r disgyblion.

Bwriedir i'r newidiadau ffurfiol gael eu rhoi ar waith o fis Medi 2019 pan argymhellir symud i mewn i'r adeilad newydd.

Prif ddiben y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth a chasglu sylwadau'r partion penodol sydd â diddordeb. Efallai y carech ddefnyddio'r ffurflen ymateb a geir yn **Atodiad E** ar dudalen olaf y ddogfen hon neu drwy anfon neges e-bost at: aaprna@sirgar.gov.uk er mwyn cyflwyno unrhyw ymateb.

2. Y Cyd-destun – y Trefniadau Presennol (*Status quo*)

2.1 Y Cefndir

Mae Ysgol Gynradd Gors-las yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng nghanol pentref Gorslas ger Cross Hands. Mae'r gan yr ysgol le i 110 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed. Sefydlwyd Ysgol Gynradd Gors-las yn y 1920au ac mae'n darparu ar gyfer disgyblion o ardal Gors-las a'r ardaloedd cyfagos. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi bod yn cynyddu ac mae hyn hefyd yn wir am niferoedd y disgyblion yn yr ysgol, lle mae nifer y disgyblion ar hyn o bryd yn uwch na'r lleoedd sydd ar gael.

Roedd adolygiad o'r problemau, yr anawsterau a'r bylchau yn y gwasanaeth a oedd yn gysylltiedig â'r trefniadau presennol yn Ysgol Gynradd Gors-las wedi nodi'r canlynol yn glir:

- Bod diffyg cysondeb rhwng nifer y lleoedd yn yr ysgol a'r galw am leoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg.
- Nid yw adeilad presennol yr ysgol yn bodloni safonau Sir Gaerfyrddin o ran y cyfleusterau sy'n cael eu cynnig a'r gofod sy'n ofynnol.
- Nid yw'r safle na'r adeiladau yn ddigonol o ran bodloni anghenion y gymuned ehangach.
- Mae'n rhaid i staff a disgyblion symud rhwng yr ystafelloedd dosbarth symudol a phrif adeilad yr ysgol.
- Nid oes digon o le, dan do nac yn yr awyr agored, i ddarparu a gwella cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a chyfleoedd chwarae ar gyfer pob dysgwr.
- Mae'r mynediad/meysydd parcio yn yr ysgol yn gyfyngedig ac yn tarfu ar yr ysgol yn ystod cyfnodau gollwng/casglu plant.

O ganlyniad, mae'n fwrriad gan yr Awdurdod Lleol i ddarparu adeilad ysgol newydd i Ysgol Gynradd Gors-las sy'n addas ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21^{ain} ganrif gyda lle ar gyfer meithrinfa allanol. O ran adeilad newydd yr ysgol, y cynnig yw cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol o 110 i 210 pan fydd adeilad newydd yr ysgol yn barod. Mae'r cynnig ar gyfer Gors-las yn elfen hanfodol o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg oherwydd bydd yn sicrhau elfen allweddol o'r ddarpariaeth strategol o ran addysg gynradd yn y dyfodol yn ardal Gorslas.

2.2 Yr ysgolion y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt

Mae dalgylch Ysgol Gynradd Gors-las wedi'i amgylchynu gan yr Ysgolion Cynradd Cymunedol canlynol:


Ysgol Gynradd Maes-y-bont, Maes-y-bont, Llanelli, SA14 7SU
Ysgol Gynradd Cefneithin, Cefneithin, Llanelli. SA14 7DE
Ysgol Gynradd Cross Hands, Cross Hands, Llanelli, SA14 6SU
Ysgol Gynradd Saron, Saron, Rhydaman, SA18 3LH
Ysgol Gynradd Pen-y-groes, Pen-y-groes, Llanelli, SA14 7NT

2.3 Gwybodaeth Gyffredinol am yr Ysgolion

Enw'r Ysgol	Y Math o Ysgol	Categori laith	Nifer Derbyn	Lleoedd	Nifer y Disgyblion – CYBLD Ionawr 2017	Disgyblion oed meithrin – CYBLD Ionawr 2017	Cyfanswm Cyfrif Pennau – CYBLD Ionawr 2017	Ystod Oedran
Gors-las	Cynradd Cymunedol	Cyfrwng Cymraeg	13	110	107	15	122	4-11
Maes-y-bont	Cynradd Cymunedol	Cyfrwng Cymraeg	5	44	22	1	23	4-11
Cefneithin	Cynradd Cymunedol	Cyfrwng Cymraeg	12	97	69	7	76	4-11
Cross Hands	Cynradd Cymunedol	Cyfrwng Cymraeg	19	168	118	26	144	3-11
Saron	Cynradd Cymunedol	Cyfrwng Cymraeg	30	240	208	21	229	4-11
Pen-y-groes	Cynradd Cymunedol	Cyfrwng Cymraeg	23	186	171	10	181	4-11

CC – Cyfrwng Cymraeg

Mae'r diagram canlynol yn amlinellu dalgylchoedd yr ysgolion sy'n amgylchynu Ysgol Gynradd Gors-las.



2.4. Nifer y Disgyblion

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y disgyblion ar gyfer ysgol Gynradd Gors-las ym mis Ionawr 2017 ac yn y pedair blynedd flaenorol:

Ysgol Gynradd Gors-las	3 oed (RhA)	3 oed	4 oed (RhA)	4 oed	5 oed	6 oed	7 oed	8 oed	9 oed	10 oed	Nifer y Disgyblion	Disgyblion Oed Meithrin	Cyfanswm Pennaeth Cyfrif
lon-17	0	15	0	15	14	16	14	23	13	12	107	15	122
lon-16	0	3	0	14	16	12	21	13	14	18	108	3	111
lon-15	0	6	0	15	10	22	13	14	19	13	106	6	112
lon-14	0	6	0	10	22	13	14	20	13	13	105	6	111
lon-13	0	5	0	23	15	14	20	13	13	12	110	5	115

2.5 Rhagamcaniad ynghylch Nifer y Disgyblion

Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm gwirioneddol y disgyblion a rhagamcanion y disgyblion dros y pum mlynedd nesaf ar gyfer Ysgol Gynradd Gors-las.

	Cyfanswm Gwirioneddol Disgyblion (Cyfanswm Cyfrif Pennau) Ion-2017	Rhagamcanion - Cyfanswm Disgyblion (Cyfanswm Cyfrif Pennau)				
		Ion-2018	Ion-2019	Ion-2020	Ion-2021	Ion-2022
Ysgol Gynradd Gors-las	122	127	129	122	124	124

2.6 Gwybodaeth am Nifer y Lleoedd ar gyfer Disgyblion

Cafodd y dull cyfrifo lleoedd ysgol ei newid yn 2006 yn sgil gweithredu "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru" (MCSW) sef canllawiau newydd Llywodraeth Cymru a gafodd eu gweithredu gan yr Awdurdod yn 2008. Cyn 2008, y dull Cofrestru Mwy Agored (MOE) a ddefnyddiwyd. Mae'r tabl canlynol yn dangos y lleoedd gwag sydd yn Ysgol Gynradd Gors-las.

	Lleoedd MSCW				
	lon-17	lon-16	lon-15	lon-14	lon-13
Nifer y Lleoedd – Ysgol Gynradd Gors-las	97	95	104	104	104
Nifer y Disgyblion	107	108	106	105	110
Nifer y Disgyblion yn ormod	+10	+13	+2	+1	+6
% Nifer y Disgyblion yn ormod	10.30%	13.68%	1.92%	0.96%	5.77%

Fel y gellir gweld o'r tabl, mae mwy o blant yn Ysgol Gynradd Gors-las na'r lleoedd sydd ar gael a hynny ers nifer o flynyddoedd. Bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar nifer y lleoedd yn yr ysgol, fel y dangosir yn glir yn y tabl.

2.7 Data Presenoldeb Ysgolion

Mae gwella presenoldeb yn flaenoriaeth genedlaethol. Os nad yw'r plant yn yr ysgol ni allant ddysgu.

Mae'r Awdurdod yn dadansoddi ac yn rhannu data ar gyfer pob ysgol gynradd bob hanner tymor er mwyn helpu ysgolion i hoelio sylw ar bresenoldeb. Mae'r dadansoddiad yn defnyddio data am ddisgyblion ym mlynnyddoedd 1 i 6, ac mae'n defnyddio'r un dull â'r ffurflen presenoldeb statudol bob mis Medi. Mae'r tabl canlynol yn dangos y data presenoldeb diweddaraf ar gyfer yr ysgol:

Ysgol	Data Presenoldeb 13/14	Data Presenoldeb 14/15	Data Presenoldeb 15/16
Ysgol Gynradd Gors-las	94.6	94.9	94.4

2.8 Y Cyfleusterau o ran Adeiladau

Cafodd Ysgol Gynradd Gors-las ei hadeiladu yn y 1920au ac mae ar safle gwastad yng nghanol y pentref. Mae'r gan yr ysgol waliau o frics a tho traddodiadol wedi'i wneud o lechi gydag estyniad coridor â tho gwastad yn y blaen ac estyniad yn y cefn sy'n cynnwys y cyfleusterau tai bach.

Cafwyd y wybodaeth ganlynol o'r arolwg eiddo diweddaraf a gynhaliwyd yn yr ysgol yn 2010 gan EC Harries fel rhan o asesiad Rhaglen Genedlaethol Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif o'r holl ysgolion yng Nghymru ar ran yr Awdurdod.

Gosodwyd yr ysgolion mewn bandiau rhwng A a D yn ôl cyflwr yr adeiladau, ac yn nhrefn blaenoriaeth rhwng 1 a 3 yn ôl pryd yr argymhellid y dylid gwneud y gwaith

Cyflwr	
A	Da (Dim dirywiad)
B	Bodddhaol (Peth dirywiad mân)
C	Gwael (Dirywiad sylweddol)
D	Gwael (Wedi cyrraedd diwedd ei oes)

Blaenoriaeth	
1	Brys (Blwyddyn 1)
2	Hanfodol (Blwyddyn 2)
3	Dymunol (Blynyddoedd 3 i 5)

Hefyd gosodwyd addasrwydd yr adeilad fel adnodd addysg mewn bandiau rhwng A a D fel y mae'r tabl canlynol yn ei ddangos:

Addasrwydd	
A	Da – (Lefelau addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgolion)
B	Rhesymol - Yn cael effaith niweidiol ar ymddygiad / morâl a rheolaeth
C	Gwael – yn rhwystr i'r dulliau addysgu
D	Gwael - Sefyllfa ddifrifol a / neu yn methu addysgu'r cwricwlwm

Mae canfyddiadau o'r arolwg ar gyfer ysgol Gynradd Gors-las fel a ganlyn:

Ysgol	Cyflwr	Addasrwydd:
Ysgol Gynradd Gors-las	B3	B

Ym mis Hydref 2015, cynhaliodd yr Awdurdod ymarferiad pen desg pellach i adolygu adeiladau presennol yr ysgol. Penderfynwyd bod y cyflwr Ysgol Gynradd Gorslas **wedi dirywio** yn ystod y cyfnod hwn.

Ysgol	Cyflwr	Addasrwydd:
Ysgol Gynradd Gors-las	C	B

2.9 Y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion

Ym mis Medi 2014, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y byddai System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion yn cael ei chyflwyno. Nid system sy'n seiliedig ar ddata'n unig ydyw. Mae safon yr arweinyddiaeth, yr addysgu a'r dysgu yn ein hysgolion yn cael eu hystyried hefyd. Ni fydd y system yn disodli adroddiadau Estyn. Bydd Estyn yn parhau i arolygu ysgolion ac wrth wneud hynny bydd y system genedlaethol ar gyfer categori ysgolion yn cael ei gwirio ganddo'n allanol.

Mae'r system newydd yn gwerthuso ac yn asesu ysgolion ac yn eu rhoi mewn categori cefnogaeth ar sail y wybodaeth ganlynol:

- Ystod o fesurau perfformiad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Hunanwerthusiad cadarn gan yr ysgol o'i gallu i wella o ran arweinyddiaeth ac o ran addysgu a dysgu.
- Aseiad o hunanwerthuso'r ysgol gan gynghorwyr her yn y consortia rhanbarthol, a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol.

Bydd y system gategoreiddio newydd yn rhoi darlun clir a theg o gynnydd ysgol. Mae pennu categori ysgol yn broses dri cham. Yn gyntaf, ar ôl i'r data perfformiad a'r hunanwerthuso gael eu dadansoddi, caiff categori cefnogaeth drafft ei bennu ar gyfer pob ysgol. Caiff y categori hwn ei drafod â'r ysgol gan gonsortia rhanbarthol ac yna cytunir arno gyda'r awdurdod lleol.

Mae pedwar categori cefnogaeth:

Categori Gwyrdd	Cefnogaeth	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei chynnal yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gref ac sy'n glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae gan yr ysgolion hyn hanes o godi'r safonau a gyflawnir gan y disgyblion ac mae ganddynt y gallu i roi cefnogaeth i ysgolion eraill wneud yn well.
Categori Melyn	Cefnogaeth	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac yn gwybod y meysydd y mae angen iddi eu gwella. Trwy ddynodi'r cefnogaeth gywir a chymryd camau, mae ganddi'r potensial i wneud hyd yn oed yn well.
Categori Oren	Cefnogaeth	Ysgol sydd angen gwella ac sydd angen cymorth i nodi'r camau ar gyfer gwella neu ar gyfer sicrhau bod newid yn digwydd yn gyflymach. Trwy drafodaethau â'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol a'r awdurdod lleol, bydd yr ysgol yn derbyn pecyn cymorth sydd wedi'i lunio'n unswydd ar ei chyfer.
Categori Coch	Cefnogaeth	Ysgol sydd angen gwella fwyaf a bydd yn derbyn cymorth dwys ar unwaith. Bydd y cynnydd yn cael ei fonitro'n fanwl er mwyn sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn digwydd mor gyflym â phosibl.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r data ar gyfer ysgol Gynradd Gors-las ar gyfer 2016/2017;

Ysgol	Grŵp Safonau*	Gallu'r Ysgol i Wella*	Categori Cefnogaeth
Gors-las	1	B	Melyn

* Y Fframwaith a'r meini prawf ar gyfer hunanwerthuso a'r gallu i hunan-wella mewn perthynas ag arweinyddiaeth, addysgu a dysgu (grŵp safonau 1 – 4, gyda 1 yn y grŵp uchaf a 4 yn yr isaf), a'r gallu i wella (A – D, ysgolion â gallu gwella o safon A ac

sy'n dangos y gallu mwyaf i wella a'r rhai sydd â gallu gwella o safon D ac sy'n dangos y gallu lleiaf i wella).

Fel y gwelir yn y tabl uchod mae Ysgol Gynradd Gors-las wedi'i chategoreiddio yn y categori Melyn sy'n golygu ei bod yn ysgol effeithiol sy'n gwneud yn dda ac sy'n gwybod y meysydd y mae angen iddi eu gwella.

2.10 Arolygiadau Estyn

Fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion, mae Estyn yn comisiynu adolygiadau o bob ysgol. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf o Ysgol Gynradd Gors-las gan Estyn ym mis Mawrth 2014 a gall ymgynghoreion gyrchu'r canfyddiadau naill ai drwy wefan Estyn sef www.estyn.llyw.cymru neu gallwch ofyn i'r Awdurdod Lleol am gopi. (mae'n bosibl y codir tâl am lungopïo.)

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol. Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'r rhagolygon gwella. Yn y gwerthusiadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Dyfarniad	Beth mae'r dyfarniad yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector.
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol.
Digonol	Mae'r cryfderau'n drech na'r meysydd sydd i'w gwella.
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau.

Dangosir dyfarniadau'r arolygiad yn y tabl canlynol ar gyfer Ysgol Gynradd Gors-las:

Crynodeb	Barn yr Arolygiad
Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da
Cwestiynau Allweddol	Barn yr Arolygiad
Pa mor dda yw'r deilliannau?	Digonol
Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da

Yn dilyn yr arolygiad ym mis Mawrth 2014, roedd Estyn wedi gwerthuso cynnydd yr ysgol yn ystod ymweliad monitro ym mis Mehefin 2015. Dyfarnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran materion allweddol ar gyfer gweithredu ac felly roedd yr

ysgol wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y mae arnynt angen eu monitro gan Estyn.

3. Gwerthusiad o'r Trefniadau Presennol

3.1 Ansawdd a safonau mewn addysg

3.1.1 Deilliannau (safonau a lles)

Fel y nodwyd yn adran 2.10, cynhaliodd Estyn arolygiad yn Ysgol Gorslas ym mis Mawrth 2014, gan farnu bod ei Pherfformiad Presennol yn 'Ddigonol' a bod ei Gallu i Wella yn 'Dda.' Yn sgil cynnydd da'r ysgol ar sail yr argymhellion, cafodd yr ysgol ei thynnu ymaith o gategori 'Monitro' Estyn ym mis Mehefin 2015. Ers hynny, mae'r ysgol wedi parhau i gryfhau ac i wella deilliannau'r disgyblion, gan ennill statws Grŵp 1 Safonau Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2017. Mae hyn yn dangos bod y Dangosydd Pynciau Craidd ar ddiwedd CA2 wedi parhau i wella dros y pedair blynedd diwethaf yn ogystal â gwelliannau mewn meysydd penodol eraill o ran y deilliannau ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol. Yn ogystal â llwyddiannau o'r fath, mae'r ysgol yn canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu llesiant pob disgybl. Ceir digon o dystiolaeth o hyn wrth i ddisgyblion ddangos llawer o ddealltwriaeth, gofal a chwarteisi. Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn safonau ymddygiad y disgyblion a'u llesiant emosiynol. Mae hyn yn gyfraniad sylweddol i ethos sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi addysg effeithiol drwy'r ysgol i gyd.

3.1.2 Y Ddarpariaeth

Mae'r ysgol yn parhau i wella a mireinio ei darpariaeth ar gyfer y disgyblion i gyd a hynny mewn modd creadigol a chynaliadwy. Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda drwy gyfrwng systemau cynllunio cydweithredol sy'n effeithiol wrth gynnal ethos cryf yr ysgol, sef ymagwedd gymunedol, ar y cyd, sy'n canolbwyntio ar ddisgwyliadau uchel. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at gynnydd a gwelliant, a hynny'n flynyddol ledled yr ysgol. Mae ymyriadau effeithiol yn cael eu hestyn i bob disgybl sydd ag anghenion unigol penodol. Caiff y rhain eu nodi'n gynnar ac mewn modd cefnogol, gan gysylltu â rhieni a phartneriaid i sicrhau darpariaeth o'r lefel uchaf sy'n berthnasol i bob plentyn. Mae ansawdd yr addysgu yn parhau i ffynnu ac mae'n elwa ar dargedu'n benodol feysydd megis strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu, cysondeb wrth roi adborth a marciau i ddisgyblion, ac ati. Mae darpariaeth yr ysgol hefyd yn elwa'n fawr ar gael tîm effeithiol o staff cymorth sy'n cydweithredu'n agos ag athrawon a disgyblion.

3.1.3 Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Corff Llywodraethu, y Pennaeth a'r staff yn rhannu gweledigaeth frwdfrydig a phendant ar gyfer eu hysgol. Mae model effeithiol o arweinyddiaeth wasgaredig wedi datblygu yn yr ysgol gan arwain at welliannau clir o ran darpariaeth a deilliannau'r disgyblion. Mae diwylliant parhaus o osod disgwyliadau uchel yn bodoli ledled yr ysgol. O ganlyniad, mae athrawon, staff a llywodraethwyr yn weithgar, yn angerddol

ac yn canolbwyntio'n llwyr ar ddatblygu pob plentyn i'w lawn botensial, a hynny mewn amgylchedd cwbl gynhwysol. Mae'r ysgol yn elwa ar ddulliau eang ac effeithiol o weithio mewn partneriaeth â rhieni, y gymuned, rhwydweithiau ysgolion ac asiantaethau cymorth amrywiol.

3.1.4 Effaith y cynnig ar Ansawdd a Safonau o ran Addysg

Bydd y ddarpariaeth arfaethedig, ddiwygiedig yn rhoi cyfle i bob disgybl a addysgir ar hyn o bryd yn Ysgol Gorslas elwa ar amgylchedd addysgol gwell. Bydd hyn yn hwyluso gwelliant pellach o ran y safonau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth dda sy'n bodoli eisoes.

3.2 Yr angen am lleoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried a oes lleoedd digonol ar gael a'r galw tebygol am lleoedd yn y dyfodol. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu ac mae hyn hefyd yn wir am y galw yn Ysgol Gynradd Gors-las, gan fod mwy o blant yn yr ysgol na'r lleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd. Fel y gwelir yn adran 2.6, mae nifer disgyblion yr ysgol yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael ers y pum mlynedd diwethaf ac o ganlyniad gosodwyd ystafell ddosbarth symudol ym mis Medi 2015, gydag ystafell symudol ychwanegol yn cael ei gosod yn barod ar gyfer blwyddyn academiaidd 2017/2018.

Yn ogystal, yn seiliedig ar ddata CYBLD Ionawr 2017:

Nifer y disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch ysgol Gynradd Gors-las sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gorslas	78
Nifer y disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch ysgol Gynradd Gors-las ond sy'n mynychu ysgolion eraill	140
Cyfanswm nifer y disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Gynradd Gors-las	218

Er nad yw'r holl ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Gynradd Gors-las yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol o 110 i 210 er mwyn rheoli'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol am addysg cyfrwng Cymraeg.

3.3 Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

3.3.1 Lleoedd gwag /Materion ynghylch lleoedd

Fel y nodir yn adran 2.6, mae mwy o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd na'r lleoedd sydd ar gael ac mae hyn wedi bod yn wir dros y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, gosodwyd ystafell ddosbarth symudol ym mis Medi 2015 ac ystafell ddosbarth symudol ychwanegol yn barod ar gyfer blwyddyn academiaidd 2017/2018. Gan fod diffyg cysondeb clir rhwng nifer y lleoedd yn yr ysgol a'r galw am lleoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, bydd y cynnig hwn yn lliniaru'r problemau o ran

nifer y lleoedd yn yr ysgol ac yn sicrhau bod nifer digonol o leoedd ar gael i ddarparu ar gyfer y galw yn y dyfodol.

3.3.2 Costau Cludiant

Bydd trefniadau cludiant yn cael eu gwneud yn unol â pholisi'r Cyngor Sir ar gyfer cludo o'r cartref i'r ysgol. Ni fydd dim newid i'r costau trafndiaeth.

3.3.3 Costau cyfalaf/ Derbyniadau cyfalaf

Yn rhan o amlen gyllid Band A Ysgolion 21^{ain} Ganrif sydd werth £86.7m mae cynllun yn cael ei ddatblygu i ddarparu adeilad ysgol newydd i Ysgol Gynradd Gors-las. Cyllidir y buddsoddiad hwn yn gyfartal rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r achos busnes.

Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir o ganlyniad i'r cynllun i ddarparu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Gors-las yn cael eu hail-fuddsoddi yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg.

3.3.4 Cyllidebau Ysgolion

Ar sail data 2017/18 y gost gyllidebol fesul disgybl yw £3,354 yn Ysgol Gynradd Gors-las, sydd yn is na chyfartaledd y sir o £3,649.

4. Yr Amcanion

Ein gweledigaeth yn Sir Gaerfyrddin yw darparu ysgolion dichonol, cynaliadwy ac effeithlon sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif a hynny drwy gael yr ysgol iawn yn y lle iawn ar gyfer y disgyblion presennol a disgyblion y dyfodol, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfleoedd dysgu o safon. Ein nod tymor hir, dan Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yw creu, yn yr ysgol, amgylchedd dysgu a fydd yn diwallu anghenion y cymunedau ac yn cynnig y ddarpariaeth ddysgu orau i'r ardal.

Cenhadaeth ein Rhaglen Moderneiddio Addysg yw:

"trawsnewid y rhwydwaith o ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd sy'n gwasanaethu'r sir yn adnodd effeithiol o safbwynt strategol a gweithredol a fydd yn bodloni'r angen ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar gyfer addysg yn yr ysgol a'r gymuned, a buddsoddi lle bo'n briodol er mwyn datblygu a gwella manau, adeiladau a seilwaith er mwyn sicrhau bod ysgolion wedi'u lleoli, eu dylunio, eu hadeiladu neu eu haddasu'n briodol i feithrin datblygiad cynaliadwy pobl a chymunedau Sir Gaerfyrddin."

Amcanion strategol ein Rhaglen Moderneiddio Addysg yw:

- Datblygu rhwydwaith ysgolion sy'n gynaliadwy'n addysgol ac yn defnyddio adnoddau'n effeithlon yn y tymor hir.
- Datblygu strwythur darpariaeth sy'n golygu y gall pob lleoliad dysgu ddarparu addysg o ansawdd uchel ar gyfer ei holl ddysgwyr cofrestredig, naill ai fel sefydliad unigol neu fel rhan o ffederasiwn ffurfiol neu drefniant cydweithredol gyda lleoliadau neu ddarparwyr eraill.
- Datblygu seilwaith ym mhob ysgol sy'n eu galluogi i ddarparu addysg yn yr 21ain ganrif ac sy'n cefnogi gwireddu'r amcanion craidd ar gyfer codi safonau addysgol a chynnal perfformiad o safon uchel.
- Darparu dull strategol o ran buddsoddiadau cyfalaf, ac integreiddio hynny â rhaglen i resymoli'r ddarpariaeth ledled y rhwydwaith ysgolion er mwyn cyflenwi'r galw yn effeithiol.
- Ailadeiladu, ailfodelu, adnewyddu neu foderneiddio'r holl ysgolion sydd i'w cadw yn y tymor hir, er mwyn iddynt gydymffurfio, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, â'r safonau dylunio a fabwysiadwyd.
- Cyfrannu at gyflawni amcanion polisi ehangach, er enghraifft, adnewyddu ac adfywio cymunedol, ffyrdd iach o fyw ac ati, trwy ddatblygu seilwaith galluogi priodol.

- Gwella effeithlonrwydd a dichonoldeb addysgol y sector ysgolion drwy leihau nifer y lleoedd gwag hyd at lefel resymol, a hwyluso, lle bo hynny'n ymarferol, y dewisiadau a fynega'r rhieni gan ymateb yn effeithiol i newidiadau demograffig.
- Cyflunio ysgolion a buddsoddi mewn safleoedd ysgolion modern fel bod yr holl system ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn gallu cefnogi'r gwaith o roi'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ar waith mewn modd effeithiol a sicrhau canlyniadau sy'n gwella i blant a phobl ifanc.

Mae amcanion strategol y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn cyd-fynd yn dda â'r amcanion cenedlaethol;

- Gwell amgylcheddau dysgu i blant, ynghyd â gwell deilliannau addysgol.
- Arbed mwy o arian trwy ddefnyddio adnoddau'n well er mwyn gwella effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd yr ystad addysg.
- Cael system addysg sy'n fwy cynaliadwy gan leihau costau rheolaidd a'r ôl troed carbon.

5. Dewisiadau ar gyfer Newid

Wrth ddatblygu dewis a ffeirir, bu'r Awdurdod yn ystyried amrywiaeth o ddewisiadau. Cafodd pob dewis ei werthuso mewn perthynas ag amcanion a meini prawf allweddol, a hynny er mwyn pennu pa ddewis oedd yn gweddu orau i ddyhead Sir Gaerfyrddin er mwyn darparu ysgol ddichonadwy a chynaliadwy sy'n addas ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21^{ain} Ganrif.

5.1 Y Prif Ddewisiadau dan Ystyriaeth

Dewis 1	Y sefyllfa bresennol – Cadw'r ysgol ar y ffurf bresennol heb unrhyw fuddsoddiad.
Dewis 2	Darparu 30 yn rhagor o leoedd yn Ysgol Gynradd Gors-las (drwy osod ystafell ddosbarth symudol).
Dewis 3	Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gors-las i 180 (drwy adnewyddu'r adeilad ysgol presennol ac adeiladu bloc newydd ar y safle presennol).
Dewis 4	Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gors-las i 210 (drwy ddarparu adeilad newydd).

5.2 Manteision/Anfanteision Pob Dewis

Dewis 1	
Y sefyllfa bresennol – Cadw'r ysgol ar y ffurf bresennol heb unrhyw fuddsoddiad	
Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none">Ni fydd dim yn newid i'r rhanddeiliaid.Ni fydd angen gweithdrefnau statudol.	<ul style="list-style-type: none">Ni fydd y dewis hwn yn mynd i'r afael â materion presennol ynghylch nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion yn yr ysgol.Ni fydd y dewis hwn yn darparu cyfleoedd i gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol.Ni fydd yn darparu dysgu ac addysgu o'r safon uchaf.Ni fydd digon o le, dan do nac yn yr awyr agored, i ddarparu a gwella cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a chyfleoedd chwarae ar gyfer pob dysgwr.

Dewis 2

Darparu 30 yn rhagor o leoedd yn Ysgol Gynradd Gors-las (drwy osod ystafell ddosbarth symudol)

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none">Ni fydd dim yn newid i'r rhanddeiliaid.Nid fydd angen gweithdrefnau statudol.Bydd yn mynd i'r afael â materion ynghylch nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion yn yr ysgol yn y tymor byr.	<ul style="list-style-type: none">Ni fydd y dewis hwn yn bodloni'r galw tymor hir am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.Mae dwy ystafell ddosbarth symudol wedi'u gosod ar safle'r ysgol ar hyn o bryd – nid oes digon o le ar gyfer ystafell ddosbarth symudol ychwanegol.Bydd yn rhaid i ddisgyblion a staff deithio rhwng y prif adeilad ysgol a'r ystafell ddosbarth symudol.Ni fydd yn darparu dysgu ac addysgu o'r safon uchaf.Ni fydd digon o le, dan do nac yn yr awyr agored, i ddarparu a gwella cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a chyfleoedd chwarae ar gyfer pob dysgwr.

Dewis 3

Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gors-las i 180 (drwy adnewyddu'r adeilad ysgol presennol ac adeiladu bloc newydd ar y safle presennol)

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none">Ni fydd dim yn newid i'r rhanddeiliaid.Bydd yn mynd i'r afael â'r galw tymor canolig am leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg.Bydd yn darparu gwell cyfleusterau ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21^{ain} Ganrif.	<ul style="list-style-type: none">Ni fydd y dewis hwn yn bodloni'r galw tymor hir am addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ac ni fydd yn cyflawni amcanion strategol yr Awdurdod Lleol.Bydd angen proses statudol.Nid oes digon o le ar gael ar y safle presennol i adeiladu bloc newydd.

<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yn symud ar hyd continwwm yr iaith Gymraeg drwy ddarparu mwy o gyfleoedd i gael addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai angen rhoi trefniadau pontio ar waith yn ystod y gwaith adeiladu. • Bydd angen buddsoddiad cyfalaf.
--	---

Opsiwn 4 (yr Opsiwn a Ffafir)	
Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gors-las i 210 (drwy ddarparu adeilad newydd)	
Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y dewis hwn yn bodloni'r galw presennol a'r galw tymor hir am leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. • Bydd yn symud ar hyd continwwm yr iaith Gymraeg drwy ddarparu mwy o gyfleoedd i gael addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. • Ni fydd angen trefniadau pontio yn ystod y gwaith adeiladu. • Bydd yn darparu gwell cyfleusterau ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21^{ain} Ganrif. • Bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth addysgu a dysgu o'r safon uchaf ar gyfer addysg gynradd cyfrwng Cymraeg ar gael. • Bydd yn darparu lle i ddarparu a gwella cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a chyfleoedd chwarae ar gyfer pob dysgwr. • Bydd yn gyfle i rannu cyfleusterau gyda'r gymuned. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd angen proses statudol. • Bydd ychydig o gynnydd o ran y pellter teithio a'r amser teithio ar gyfer y disgyblion. • Bydd angen buddsoddiad cyfalaf.

6. Y Cynnig

6.1 Y Rhesymeg dros Newid

Fel yr amlinellwyd eisoes, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor Sir i adolygu nifer a math yr ysgolion sydd ganddo yn yr ardal, ac mae'n ofynnol iddo sicrhau eu bod yn y man iawn a bod ganddynt y cyfleusterau iawn ar gyfer y dyfodol a'r adnoddau iawn i ddarparu addysg a dysg i ddisgyblion.

Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol le i 110 o ddisgyblion rhwng 4-11 oed. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae hyn hefyd yn wir am niferoedd y disgyblion yn yr ysgol. Ar hyn o bryd mae nifer y disgyblion yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael; ac fel y nodwyd yn adran 2.6; mae hyn wedi bod yn wir am y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi dangos bod diffyg cysondeb clir rhwng nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol a'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. O ganlyniad, gosodwyd ystafell ddosbarth symudol ym mis Medi 2015, gydag ystafell ddosbarth symudol ychwanegol yn cael ei gosod yn barod ar gyfer tymor academiaidd 2017/2018.

O ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn datblygu cynllun i ddarparu adeilad addas i Ysgol Gynradd Gors-las ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21^{ain} Ganrif, a fydd yn bodloni'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol ar addysg cyfrwng Cymraeg.

6.2 Y Cynnig

Oherwydd y galw cynyddol am leoedd addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Gorlas, cynnig yr Awdurdod Lleol yw:

- cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gors-las o 110 i 210 o 1 Medi 2019 pan argymhellir symud i mewn i'r adeilad newydd.

6.3 Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ni fydd unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol a gynigir i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgol. Fodd bynnag, pan fydd adeilad yr ysgol newydd wedi'i gwblhau, bydd y cyfleusterau gwell yn gwella addysgu a dysgu yn uniongyrchol ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rhai o grwpiau sy'n fwy agored i niwed, gan gynnwys dysgwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol.

6.4 Dalgylch yr Ysgol

Ni fydd dalgylch presennol yr ysgol yn newid.

Y lleoliad sy'n cael ei ffafrio ar gyfer safle adeilad newydd yr ysgol yw Parc Gors-las sy'n parhau i fod o fewn dalgylch presennol Ysgol Gynradd Gorslas, felly bydd y dalgylch dynodedig yn seiliedig ar ddalgylch yr ysgol bresennol.

6.5 Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ni fydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol o ran disgyblion yn trosglwyddo i addysg Uwchradd.

6.6 Trefniadau Pontio

Ni fydd dim newid i'r disgyblion wrth i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo, bydd disgyblion yn parhau i fod ar safle presennol yr ysgol hyd nes y cwblheir y gwaith adeiladu. Byddai disgyblion yn adleoli i'r ysgol newydd ym mis Medi 2019 sef y dyddiad yr argymhellir i'r disgyblion ddechrau yn yr ysgol newydd.

6.7 Manteision ac Anfanteision y Cynnig

Manteision

- Mwy o gyfleoedd i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.
- Mynd i'r afael â materion ynghylch nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion yn yr ysgol.
- Sicrhau bod yr ysgol yn darparu ar gyfer y galw am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

Yr Anfanteision

- Angen proses statudol i weithredu'r cynnig.

6.8 Y Risgiau a'r Mesurau i'w Lliniaru

Risg		Y Mesur i Liniaru'r Risg
1.	Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig.	- Dilyn y canllawiau a bennwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion 2013.
2.	Methiant â chael cymeradwyaeth i'r achosion busnes.	- Dilyn canllawiau achos busnes fel y'u nodir yn y Rhaglen Ysgolion 21 ^{ain} Ganrif a Chyllido Ysgolion.

6.9 Goblygiadau Ariannol - Refeniw

Caiff Ysgol Gynradd Gors-las ei chyllido yn unol â pholisi Ariannu Teg y Cyngor Sir a bydd yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, a hynny yn seiliedig ar nifer y disgyblion a chyfleusterau'r ysgol newydd.

6.10 Trefniadau Derbyn

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd Gors-las. 13 yw'r nifer derbyn presennol. Os gweithredir y cynnig bydd y nifer derbyn yn cynyddu i 30. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch derbyn disgybl i'r ysgol mae manylion cyswllt Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

Yr Uned Llywodraethu a Derbyn i Ysgolion
Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin
Yr Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 2,
Y Prif Adeilad,
Parc Dewi Sant,
Caerfyrddin. SA31 3HB

Rhif ffôn: 01267 246449

Rhif Ffacs : 01267 246746

E-bost: rjonesevans@sirgar.gov.uk

6.11 Asesiad o'r Effaith ar Gludiant

Ar sail data CYBLD Ionawr 2017 ynghylch cyfeiriadau disgyblion roedd 78 (cyfanswm Nifer y Disgyblion ac oedran meithrin) yn mynychu Ysgol Gynradd Gors-las ac yn byw yn y dalgylch, ac roedd 44 o ddisgyblion yn byw y tu allan i'r dalgylch. Rhaid nodi hefyd, yn seiliedig ar ddata cyfeiriadau CYBLD Ionawr 2017, roedd 140 o ddisgyblion yn byw yn nalgylch Gorslas yn mynychu ysgolion eraill.

Ar sail data CYBLD Ionawr 2017 ynghylch cyfeiriadau disgyblion, roedd disgyblion ar gyfartaledd yn teithio 2.8 milltir i gyrraedd safle presennol Ysgol Gynradd Gors-las gydag amser teithio cyfartalog o 7.1 munud. Gan ddefnyddio'r un data, byddai disgyblion ar gyfartaledd yn teithio 2.9 milltir i gyrraedd y safle newydd gydag amser teithio cyfartalog o 7.2 munud. Yn seiliedig ar yr asesiad hwn, byddai ychydig o gynnydd o 0.1 milltir o bellter teithio a 0.1 munud o ran amser teithio ar gyfer y disgyblion.

6.12 Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Gweler Atodiad A o'r ddogfen ymgynghori hon, i gael manylion llawn am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a gynhaliwyd.

6.13 Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gweler Atodiad B o'r ddogfen ymgynghori hon lle ceir manylion llawn am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gynhaliwyd.

6.14 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gweler Atodiad C o'r ddogfen ymgynghori hon, lle ceir manylion am yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd.

7. Y Broses Statudol

Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2013).

Â phwy arall y byddwn ni'n ymgynghori?

Anfonir y ddogfen hon at y partïon canlynol sydd â diddordeb, sef:

Staff (Addysgu ac Ategol) – Ysgol Gynradd Gors-las	Cyfarwyddwyr Addysg – yr holl Awdurdodau Cyfagos
Llywodraethwyr a Rhieni / Gwarcheidwad – Ysgol Gynradd Gors-las	Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig
Cynghorwyr Sir Lleol	Estyn
Cynghorwyr Cymuned – Cyngor Cymuned Gorslas	Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol
Aelod Cynulliad (AC) / Aelodau Rhanbarthol / Aelodau Seneddol (AS)	* Yr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos yn Sir Gaerfyrddin
Gweinidogion Llywodraeth Cymru	Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
Partneriaid AAA	Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
Is-adran Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol	Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)
ERW – Ein Rhanbarth ar Waith	UNSAIN
Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc	Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
Gofal Plant / Y Blynyddoedd Cynnar	Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf	Undeb y GMB
Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI)	Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol (T+G)
Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau Lleol	Meithrinfa Cae'r Ffair
Comisiynydd y Gymraeg	Cylch Meithrin Cefneithin Gors-las

* Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at Bennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr ysgolion cynradd cymunedol Maesybont, Cefneithin, Cross Hands, Saron a Penygroes ac Ysgolion Uwchradd Maes y Gwendraeth ac Ysgol Bro Dinefwr.

Ymgynghori â'r Disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion Ysgol Gynradd Gors-las gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir yn yr ysgol gyda'r Ymgynghorydd Her.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r adroddiad ymgynghori a gyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Y Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau ar 6 Tachwedd 2017 ac yn dod i ben ar 17 Rhagfyr 2017. Yn ystod y cyfnod hwn gallwch ofyn cwestiynau a mynegi eich barn drwy ysgrifennu llythyr neu lenwi'r ffurflen ymateb amgaeedig yn Atodiad E. Dylid anfon llythyrau a ffurflenni ymateb i'r cyfeiriad canlynol heb fod yn hwyrach na chanol dydd ar 17 Awst 2017.

Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Adeilad 2. Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB
Neu drwy e-bost at: aaprma@carmarthenshire.gov.uk

Gall ymgynghoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgynghoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol y manylir arno isod.

Ystyried eich Sylwadau

O fewn 13 wythnos ar ôl 17 Rhagfyr 2017 bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r materion hyn. Hefyd bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn ynghylch y cynnig a manylion am yr ymgynghori a gynhaliwyd â'r disgyblion.

Bydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ydynt am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Os yw'r Bwrdd Gweithredol yn penderfynu mynd ymlaen â'r cynnig mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi hysbysiad statudol.

Hysbysiad Statudol

Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod yn Ysgol Gynradd Gors-las. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu

dosbarthu i'r disgyblion, i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff (gall yr ysgol ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost hefyd.)

Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau. Os derbynnir gwrthwynebiadau cyhoeddir adroddiad ynghylch y gwrthwynebiadau ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copiâu caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r gwrthwynebiadau hynny.

Penderfynu ar y Cynnig

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

Rhoi gwybod am y penderfyniad

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Amserlen y Broses Statudol

Bydd y broses a'r amserlen statudol fel a ganlyn:

6 Tachwedd 2017	Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb.
17 Rhagfyr 2017	Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig i'r Adran Addysg a Phlant.
	<p>O fewn 13 wythnos ar ôl 17 Rhagfyr 2017 bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei roi gerbron y Bwrdd Gweithredol a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Penderfynu mynd ymlaen i gyhoeddi'r Hysbysiad Statudol. NEU fod y cynnig yn dod i ben</p> <p>Os gwneir y penderfyniad i fynd ymlaen â'r mater yna cyhoeddir hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol a'r ysgolion sy'n destun y cynigion. Bydd copiâu o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff. Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad caniateir cyfnod o 28 diwrnod pryd y gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol.</p>

	Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig.
Ebrill 2018	Diwedd y cyfnod hysbysu ffurfiol o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth benderfynu bydd y Cyngor Sir yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau a ddaeth i law.
Gorff 2018	Y dyddiad olaf o ran rhoi gwybod i'r rhieni am y bwriad i roi'r cynnig ar waith. Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Dadansoddiad o'r Dalgylch – Data CYBLD Ionawr 2017

Mae gan bob ysgol ardal y mae'n ei gwasanaethu, a adwaenir fel dalgylch yr ysgol. Disgwylir i bob ysgol ddarparu lle ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ei dalgylch ac mae'n ofynnol i ysgolion roi sylw i'r galw parhaus hwn.

Mae'r mwyafrif o'r rhieni yn anfon eu plentyn i'w hysgol leol ond mae gan rieni hawl i fynegi eu bod yn dewis ysgolion eraill.

Plant sy'n mynychu'r ysgol sy'n byw yn y dalgylch /tu allan i'r dalgylch

Ar sail data CYBLD Ionawr 2017 ynghylch cyfeiriadau disgyblion, roedd y data daearyddol ynghylch gwasgariad disgyblion dalgylch Ysgol Gynradd Gors-las yn dangos bod 78, o'r 122 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol, yn byw yn y dalgylch a bod y 44 disgybl arall yn dod o'r tu allan i'r dalgylch.

Y Plant yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill.

Ar sail data CYBLD Ionawr 2017, roedd 140 o ddisgyblion yn byw yn y dalgylch ar gyfer Ysgol Gynradd Gors-las ac yn mynychu ysgolion eraill fel a ganlyn.

Gan gymryd i ystyriaeth y 78 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gors-las, a'r 140 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch ond sy'n mynychu ysgolion eraill, ceir cyfanswm o 218 o ddisgyblion yn byw yn y dalgylch ar gyfer Ysgol Gynradd Gors-las.

Cyfleusterau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clwb /grŵp chwarae

Mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd Cyngor Cymuned Gors-las pan fo angen.

Cyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol / llyfrgell gymunedol

Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn cynnal clwb brechwast i ddisgyblion yn ystod dyddiau'r wythnos rhwng 8-8.30am.

Mae'r disgyblion hefyd yn elwa ar sawl clwb ar ôl ysgol, sy'n cael eu cynnal ar nosweithiau amrywiol yn ystod yr wythnos. Mae sefydliad lleol, Menter Cwm Gwendraeth yn cynnal "Clwb Joio" ar nos Lun rhwng 3.30-5 pm. Mae'r "Clwb Joio" yn cynnig awr a hanner o weithgareddau penodol i'r disgyblion, sy'n ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer disgyblion rhwng 4-11 oed i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i oriau ysgol. Mae staff yr ysgol hefyd yn cynnal clwb chwaraeon ddydd Mawrth a Chlwb yr Urdd ddydd Mercher. Ddydd Iau, mae staff yr ysgol yn cynnal clwb ar ôl ysgol, lle mae'r gweithgareddau'n amrywio o wythnos i wythnos. Yn y clwb hwn, mae'r disgyblion yn elwa ar ddatblygu sgiliau megis garddio, coginio, Gwyddoniaeth a TG.

Effaith ar y Gymuned

Os caiff ei gymeradwyo, bydd y cynnig yn caniatáu mwy o gyfleoedd i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Gors-las, yn unol â pholisïau cenedlaethol a lleol. Bydd yr ardal ar gyfer darparwr meithrinfa allanol yn caniatáu i ddisgyblion y blynyddoedd cynnar i gael mynediad i ddarpariaeth feithrin o fewn amgylchedd yr ysgol a fydd yn cryfhau'r berthynas a'r cysylltiadau rhwng y darparwr allanol a'r ysgol a fydd yn sicrhau trosglwyddiad hwylus rhwng y cyfleusterau.

O ganlyniad i'r cynllun ei hun, bydd adeilad newydd yr ysgol o fudd sylweddol i gymuned Gors-las drwy ddefnydd o'r cyfleusterau megis y maes parcio, y cae chwaraeon, MUGA - man chwarae amldefnydd a'r brif neuadd y gellid ei defnyddio ar gyfer nifer o weithgareddau.

Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gweledigaeth Cyngor Sir Caerfyrddin yw darparu gwasanaeth a fydd yn sicrhau mynediad i gyfleoedd addysgol o ansawdd uchel i bob plentyn, person ifanc ac oedolyn, ac felly yn eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r sir hon.

Mae'r cynnig hwn yn ategu gweledigaeth ac amcanion y Cyngor ynghylch addysg Cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Sir Gaerfyrddin, 2014–2017. Bydd y cynnig yn rhoi mwy o gyfleoedd i gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Gors-las gan sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel bod pob disgybl yn datblygu i fod yn rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Categori Iaith

Mae Ysgol Gynradd Gors-las yn cael ei chategoreiddio yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Fel y nodwyd yn y llyfryn derbyn i Ysgolion – Gwybodaeth i Rieni mae hyn yn golygu yn y Cyfnod Sylfaen, y caiff disgyblion eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn CA2, mae o leiaf 70% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw'r iaith gyfathrebu â disgyblion ac iaith gwaith pob dydd yr ysgol.

Safonau

Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff disgyblion eu hasesu mewn gwahanol feysydd dysgu. Yn seiliedig ar ddata 2016, roedd 83.3% o ddisgyblion wedi cyflawni o leiaf Deilliant 5 mewn "Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg, ac roedd 33.3% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Deilliant 6. Yng Nghyfnod Allweddol 2, caiff disgyblion eu hasesu ym mhob un o'r pynciau craidd. Yn seiliedig ar ddata 2016, roedd 70.6% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Lefel 4 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf.

Gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg

Y System Genedlaethol ar gyfer Categoriaddio Ysgolion

Ym mis Medi 2014, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y byddai System Genedlaethol ar gyfer Categoriaddio Ysgolion yn cael ei chyflwyno. Nid system sy'n seiliedig ar ddata'n unig ydyw. Mae safon yr arweinyddiaeth, yr addysgu a'r dysgu yn ein hysgolion yn cael eu hystyried hefyd. Ni fydd y system yn disodli adroddiadau Estyn. Bydd Estyn yn parhau i arolygu ysgolion ac wrth wneud hynny bydd y system genedlaethol ar gyfer categoriaddio ysgolion yn cael ei gwirio ganddo'n allanol.

Mae'r system newydd yn gwerthuso ac yn asesu ysgolion ac yn eu rhoi mewn categori cefnogaeth ar sail y wybodaeth ganlynol:

- Ystod o fesurau perfformiad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Hunanwerthusiad cadarn gan yr ysgol o'i gallu i wella o ran arweinyddiaeth ac o ran addysgu a dysgu.
- Asesiad o hunanwerthusiad yr ysgol gan ymgynghorwyr her yn y consortia rhanbarthol, y cytunwyd arnynt gyda'r Cyngor Sir.

Bydd y system gategoriaddio newydd yn rhoi darlun clir a theg o gynnydd ysgol. Mae pennu categori ysgol yn broses dri cham. Yn gyntaf, ar ôl i'r data

perfformiad a'r hunanwerthusiad gael eu dadansoddi, caiff categori cefnogaeth drafft ei bennu ar gyfer pob ysgol. Caiff y categori hwn ei drafod â'r ysgol gan gonsortia rhanbarthol ac yna cytunir arno gyda'r awdurdod lleol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r data ar gyfer Ysgol Parc y Tywyn:

Y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion – Data 2016

Ysgol	Grŵp Safonau	Gallu'r Ysgol i Wella	Categori Cefnogaeth
Ysgol Parc y Tywyn	2	A	Gwyrdd

Fel y gwelir o'r tabl uchod, caiff Ysgol Parc y Tywyn ei rhoi yn y categori Gwyrdd a dywedir ei bod yn '**ysgol hynod effeithiol**' a gaiff ei '**rhedeg yn dda**', sydd ag '**arweinyddiaeth greff**' ac sydd '**yn glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella**'.

Leadership and Management

It is not anticipated that learner outcomes will be adversely affected during the change to the age range from 4-11 to 3-11. Indeed, we are wholly confident that learner outcomes will be enhanced as learners are integrated into an appropriate learning environment from an earlier age. All aspects of provision and outcomes will be monitored in line with the high expectations and processes of our regional school improvement service – ERW.

In addition, the County Council collects and collates learner outcomes on a regular and systematic basis to ensure the frequent monitoring and progression of standards across all core areas of learning. This will continue throughout the proposal of change to ensure that learner outcomes are continuously monitored and not affected as a result of the proposal. Central to this work will be the support and challenge work undertaken by ERW Challenge Advisers within the school. This activity will include a menu of scheduled visits focusing on analyses of pupil outcomes and the quality of teaching provision and learning. It is important to note that the findings of this work are always shared directly with the Governing Body. This ensures the highest levels of whole school accountability are firmly in place in support of learners' outcomes.

ERW Challenge Advisers place much emphasis on a school's ability to demonstrate high levels of 'valued added performance' based on an individual learner's benchmark starting point. This aspect will remain a key feature of the monitoring and review of the school's performance during this period.

5.6 Costau fesul Disgybl

Ar sail data 2017/18 y gost gyllidebol fesul disgybl yw £3,166 yn Ysgol Parc y Tywyn, sydd yn is na chyfartaledd y sir sef £3,649.

5.7 Goblygiadau Ariannol - Refeniw

Caiff Ysgol Parc y Tywyn ei chyllido yn unol â pholisi Ariannu Teg y Cyngor Sir a bydd yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, a hynny yn seiliedig ar nifer disgyblion a chyfleusterau'r ysgol newydd.

5.8 Trefniadau Derbyn

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Parc y Tywyn. 40 yw'r nifer derbyn presennol. Pan fydd yr adeilad newydd wedi'i gwblhau bydd y nifer derbyn yn codi i 45.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch derbyn disgybl i'r ysgol mae manylion cyswllt Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

Yr Uned Derbyn i Ysgolion
Cyngor Sir Caerfyrddin
Yr Adran Addysg a Phlant
Adeilad 2, Parc Dewi Sant
Caerfyrddin. SA31 3HB

Rhif ffôn: 01267 246449
E-bost : derbyniadau@sirgar.gov.uk

5.9 Y Cyfleusterau o ran Adeiladau

Presennol

Adroddodd yr **Arolwg o Gyflwr yr Adeilad a gynhaliwyd ym mis Awst 2001** fod Ysgol Parc y Tywyn 'wedi'i lleoli ar gyrion Porth Tywyn, wedi'i hadeiladu yn y 1970au ar ffurf bloc modiwlaidd o frics gyda tho ar oledf graddol. Ychwanegwyd ystafelloedd dosbarth therapin i ddarparu cyfleusterau dosbarth ychwanegol'.

'Byddai mynediad i bobl anabl mewn cadair olwyn a phobl rhannol ddall yn bosibl o osod rhai rampiau bychain wrth y drysau mynediad'.

Yn 2010 fel rhan o **asesiad Rhaglen Genedlaethol Ysgolion yr 21ain Ganrif**, cynhaliodd EC Harris arolwg ar ran yr holl ysgolion yng Nghymru. Sgoriodd yr arolwg bob un o adeiladau'r ysgol o ran

1) Cyflwr, 2) Blaenoriaeth a 3) Addasrwydd.

1) Cyflwr – Yn ôl categori o A i D:

- A Da (Dim dirywiad)
- B Boddhaol (Mân ddirywiad)
- C Gwael (Dirywiad sylweddol)**
- D Drwg (Wedi cyrraedd diwedd oes)

2) Blaenoriaeth – Argymhellir amserlen o 1 i 3 ar gyfer gwneud unrhyw waith:

- 1 Brys (Blwyddyn)
- 2 Hanfodol (2 Flynedd)**
- 3 Dymunol (3 i 5 Blynedd)

3) Addasrwydd – Yn ôl categori o A i D:

- A Da (Lefelau addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgolion)
- B Rhesymol (Ond yn cael effaith niweidiol ar ymddygiad / morâl a rheolaeth)
- C Gwael (Yn rhwystyr i'r dulliau addysgu)**
- D Drwg (Sefyllfa ddifrifol a / neu yn methu dysgu'r cwricwlwm)

Cafodd Ysgol Parc y Tywyn ei rhoi yn y categorïau canlynol:

Cyflwr	Blaenoriaeth	Addasrwydd
C	2	C

Adeilad Newydd

Pan fydd yr adeilad newydd wedi'i gwblhau disgwylir y bydd yn cael gradd A am Gyflwr yr Adeilad a'r radd uchaf mewn perthynas ag Addasrwydd. Bydd hefyd yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion o safbwynt mynediad i'r anabl a bydd yn derbyn Tystysgrif Perfformiad Ynni gradd A.

5.10 Cludiant

Bydd trefniadau cludiant yn cael eu gwneud yn unol â pholisi'r Cyngor Sir ar gyfer cludo o'r cartref i'r ysgol. Disgwylir y bydd yr amser teithio cyfan ar gyfer disgyblion sy'n byw yn y dalgylch yn lleihau o ganlyniad i'r drefn ffyrdd newydd a wireddwyd fel rhan o'r gwaith o ailddatblygu Harbwr Porth Tywyn.

5.11 Dalgylch yr Ysgol

Bydd yr ysgol yn symud o Heol Elfed i safle ychydig oddi ar Burrows Terrace, sydd lai na milltir o'r safle presennol. Ni fydd dalgylch yr ysgol yn newid.

5.12 Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ni fydd unrhyw newidiadau yn y trefniadau presennol o ran trosglwyddo disgyblion i addysg Uwchradd.

5.13 Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ni fydd unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol a gynigir i ddisgyblion ag anghenion dysgu ac addysgol ychwanegol yn yr ysgol.

6. Y Broses Statudol

6.1 Y Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau ar **Tachwedd 6, 2017** ac yn gorffen ar **Rhagfyr 17, 2017**. Yn ystod y cyfnod hwn gallwch ofyn cwestiynau a mynegi eich barn drwy ysgrifennu llythyr neu drwy lenwi'r ffurflen ymateb amgaeedig yn **Atodiad E**. Dylid anfon llythyrau a ffurflenni ymateb i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB, neu drwy anfon e-bost i: aaprma@sirgar.gov.uk erbyn [canol dydd ar Rhagfyr 17, 2017](#) fan pellaf.

Gall ymgynghoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgynghoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol y manylir arno isod.

6.2 Ystyried eich Sylwadau

O fewn 13 wythnos ar ôl **Rhagfyr 17, 2017** bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ynghylch y cynnig.

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a yw am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Os yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn penderfynu mynd ymlaen â'r cynnig, rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad statudol.

6.3 Hysbysiad Statudol

Caiff yr hysbysiad statudol ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i arddangos ym mhrif fynedfa'r ysgol a phob mynedfa arall. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, aelodau staff a llywodraethwyr (gall yr ysgol hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau.

6.4 Penderfynu ar y Cynnig

Cyngor Sir Llawn Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ynghylch y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Bwrdd Gweithredol hefyd yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

6.5 Rhoi gwybod am y penderfyniad

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl barffïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

6.6 Amserlen y Broses Statudol

Bydd y broses a'r amserlen statudol fel a ganlyn:

Tachwedd 6, 2017 (42 Diwrnod)	Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i barffïon penodol a pharffïon eraill sydd â diddordeb.
Rhagfyr 17, 2017	Dyddiad cau'r Adran Addysg a Phlant ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig.
	<p>O fewn 13 wythnos ar ôl Rhagfyr 17, 2017, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei roi gerbron y Cyngor Sir a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.</p> <p>Penderfynu mynd ymlaen i gyhoeddi'r Hysbysiad Statudol. NEU fod y cynnig yn dod i ben.</p> <p>Os gwneir y penderfyniad i fynd ymlaen â'r mater yna cyhoeddir hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol a'r ysgolion sy'n destun y cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff.</p> <p>Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad caniateir cyfnod o 28 diwrnod pryd y gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol.</p> <p>Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig.</p>
Ebrill 2018	<p>Diwedd y cyfnod hysbysu ffurfiol o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau.</p> <p>Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth benderfynu bydd y Cyngor Sir yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau a ddaeth i law.</p> <p>Y dyddiad olaf o ran rhoi gwybod i'r rhieni am y bwriad i roi'r cynnig ar waith.</p>
Gorffennaf 2018	Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl barffïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

7. Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Lleolir Ysgol Parc y Tywyn yn Heol Elfed, sydd ar gyrion Porth Tywyn, yng nghanol ystâd o dai cyngor ger yr ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg leol.

Mae Porth Tywyn tua 5 milltir i'r gorllewin o Lanelli.

Ar hyn o bryd mae 262 o ddisgyblion rhwng fair oed (yn mynd yn bedwar) ac 11 ar y gofrestr. Ceir deg o ddisbarthiadau yn yr ysgol. Mae nifer y dosbarthiadau derbyn wedi cynyddu o un i dri i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion. Mae gan tua 10.9% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim.

Ar hyn o bryd ceir 27 o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgol. Ceir 2 ddisgybl sydd â datganiad ac ystyrir bod angen Camau Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ar 11 disgybl a Chamau Gweithredu gan yr Ysgol ar 14 disgybl.

Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 4-11 oed. Pan fydd wedi'i gwblhau bydd lle yn adeilad newydd yr ysgol ar gyfer dosbarth meithrin a fydd yn cynyddu'r ystod oedran i 3-11. Caiff y disgyblion eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ysgol yn darparu dewis o weithgareddau ar ôl ysgol, yn eu plith amrywiol glybiau sy'n cynnig ystod o weithgareddau awyr agored a chlybiau sy'n datblygu hunanhyder ac annibyniaeth y disgyblion. Ceir darpariaeth dda i sicrhau parhad a dilyniant yng ngwybodaeth y disgyblion am sgiliau sylfaenol a'u dealltwriaeth ohonynt wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae'r bartneriaeth â'r rhieni a'r gymuned yn nodwedd arbennig ar waith a gweithgareddau'r ysgol.

Dadansoddiad o'r Dalgylch

Ysgol Leol / Ysgol Ddalgyloch

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod bod yna berthynas bwysig rhwng ysgol a'i chymuned. Felly, mae'r Cyngor Sir wedi nodi ardal ddaearyddol ddynodedig a wasanaethir gan yr ysgol a gelwir yr ardal honno'n ddalgyloch yr ysgol. Mae'r manylion am ddalgyloch ysgol benodol ar gael gan yr ysgol, ar wefan y Cyngor Sir, neu oddi wrth yr Awdurdod Derbyn perthnasol.

Er nad yw byw yn nalgyrch yr ysgol yn gwarantu y caiff plentyn ei dderbyn i'r ysgol honno, mae'n ffactor bwysig gan y bydd hyn yn rhoi blaenoriaeth uwch i'r cais o gymharu ag unigolion sy'n byw y tu allan i'r dalgyrch. Mae byw o fewn dalgyrch diffiniedig yr ysgol hefyd yn bwysig gan fod hyn yn un o'r meini prawf allweddol wrth asesu a yw rhywun yn gymwys i dderbyn cymorth gyda chludo plentyn o'r cartref i'r ysgol.

Cyn gwneud cais am i'ch plentyn gael ei dderbyn i ysgol mae'r Cyngor Sir yn argymhell yn gryf eich bod yn cysylltu, yn trafod ac, os oes modd, yn ymweld â'ch ysgol leol er mwyn cael gwybod pa gyfleusterau a chyfleoedd a gynigir yno.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn anfon eu plentyn i'w hysgol leol ond mae ganddynt yr hawl i fynegi eu bod yn dewis ysgolion eraill.

Plant sy'n mynychu'r ysgol o'r tu mewn i'r dalgyrch

Ar sail data cyfeiriadau disgyblion mis Ionawr 2017, roedd y data daearyddol mewn perthynas â dosbarthiad disgyblion yn nalgyrch Ysgol Parc y Tywyn yn dangos bod 240 o'r 262 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol yn byw yn y dalgyrch.

Plant sy'n mynychu'r ysgol o'r tu allan i'r dalgyrch

Ar sail data cyfeiriadau disgyblion mis Ionawr 2017, roedd y data daearyddol mewn perthynas â dosbarthiad disgyblion yn nalgyrch Ysgol Parc y Tywyn yn dangos bod 22 o'r 262 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol byw y tu allan i'r dalgyrch.

Y Plant yn y dalgyrch sy'n mynychu ysgolion eraill

Ar sail data cyfeiriadau disgyblion mis Ionawr 2017, roedd y data daearyddol mewn perthynas â dosbarthiad disgyblion yn nalgyrch Ysgol Parc y Tywyn yn dangos bod 398 disgybl o fewn y dalgyrch yn mynychu ysgolion eraill. Roedd nifer arwyddocaol o'r disgyblion hyn naill ai'n mynychu ysgolion cynradd Porth Tywyn neu Ben-bre gan eu bod yn rhannu'r un dalgyrch ag Ysgol Parc y Tywyn.

Cyfleusterau / Gweithgareddau Ysgol Parc y Tywyn

Mae Ysgol Parc y Tywyn yn cynnig clwb brecwast i'r disgyblion yn ystod y tymor rhwng 8am ac 8:50am. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig clybiau ar ôl ysgol i ddisgyblion sy'n dymuno cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau rhwng dydd Llun a dydd Gwener tan 5:20pm bob diwrnod ysgol.

Mae clybiau ar ôl ysgol yn darparu amrywiol weithgareddau (yn dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn), i ymestyn profiad y disgyblion trwy eu galluogi i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau awyr agored a datblygu hunanhyder ac annibyniaeth h.y. Clwb Hwyl a Chlybiau Ysgol Iau.

Defnydd y gymuned o adeilad Ysgol Parc y Tywyn

Nid yw'r gymuned yn defnyddio'r adeilad ar hyn o bryd.

Darpariaeth yr Eglwys yng Nghymru

Pe bai rhieni'n dymuno anfon eu plant i ysgol â naws yr Eglwys yng Nghymru, eu hysgol agosaf fyddai Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Pentip yn Llanelli, yn amodol ar ddewis y rhieni.

8. Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gweledigaeth Cyngor Sir Caerfyrddin yw darparu gwasanaeth a fydd yn sicrhau mynediad i gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i bob plentyn, person ifanc ac oedolyn, ac felly yn eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r sir hon.

Mae'r cynnig hwn yn ategu gweledigaeth ac amcanion y Cyngor ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin, 2014–2017. Bydd y cynnig yn caniatáu mwy o gyfleoedd i gael addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Porth Tywyn a bydd yn sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel bod pob disgybl yn datblygu i fod yn rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Categori Iaith

Mae Ysgol Parc y Tywyn wedi'i chategoreiddio'n ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Fel y nodwyd yn y llyfryn Derbyn i Ysgolion – Gwybodaeth i Rieni, mae hyn yn golygu, yn y Cyfnod Sylfaen, fod y disgyblion yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac, yng Nghyfnod Allweddol 2, fod o leiaf 70% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw iaith cyfathrebu gyda disgyblion a gwaith pob dydd yr ysgol.

Safonau

Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff y disgyblion eu hasesu mewn meysydd dysgu gwahanol. Ar sail data 2016, roedd 83.3% o'r disgyblion wedi cyflawni Deilliant 5 o leiaf mewn iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg, tra bod 33.3% o'r disgyblion wedi cyflawni Deilliant 6 o leiaf. Yng Nghyfnod Allweddol 2, caiff y disgyblion eu hasesu ym mhob un o'r pynciau craidd. Ar sail data 2016, roedd 70.6% o'r disgyblion wedi cyrraedd Lefel 4 o leiaf yn y Gymraeg iaith gyntaf.

Gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n cynnig cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg

Er mwyn hybu'r Gymraeg, mae'r disgyblion yn Ysgol Parc y Tywyn yn ffodus am eu bod yn gallu manteisio ar sawl clwb ar ôl ysgol a gynhelir ar nosweithiau amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys 'Clwb yr Urdd', 'Clwb Côr Mawr', 'Clwb Unsain' a 'Clwb Deulais'.

9. Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydaddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o ddylunio polisiâu a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell canlyniadau i bawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau, gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd newydd ar y sector cyhoeddus sy'n ymestyn cwmpas hyn i gynnwys oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau ei chael ar hawliau dynol.

Dull Sir Gaerfyrddin o ran yr Effaith ar Gydraddoldeb


Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl y bydd ei bolisiâu a'i arferion arfaethedig yn ei chael ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen i bob cynnig gael ei

ategu gan yr Asesiad o'r Effaith sy'n atodedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

Cyhoeddi adroddiad ynghylch asesiadau

Os yw'n amlwg o'r asesiad fod yr effaith debygol ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Y broses sydd i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau o ran Adnoddau Dynol



Templed ar gyfer Aseiad Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Yr Adran: Addysg a Phlant	Cwblhawyd gan (arweinydd): Martin Jones	Dyddiad yr aseiad cychwynnol: Awst 2017 Dyddiadau adolygu: l'w gadarnhau
Y maes a asesir: (h.y. enw'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn, yr arfer neu benderfyniad ariannol)	Newid ystod oedran Ysgol Parc y Tywyn yn gyfreithiol o 4-11 i 3-11 erbyn Tymor yr Hydref 2018-19	
Ydy'r swyddogaeth/polisi, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad dan sylw yn bodoli'n barod neu a yw'n un newydd?	Cynnig ynghylch Ad-drefnu Ysgolion – Rhaglen Moderneiddio Addysg	
Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth lunio'r aseiad a'r polisi? (rhestr yn unig)		
<ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif • Y Rhaglen Moderneiddio Addysg • Côd Trefniadaeth Ysgolion 2013 • Data CYBLD 2016 		

<p>1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddibenion y swyddogaeth/polisi, arfer, gweithdrefn neu benderfyniad arfaethedig a phwy fydd yn cael budd ohonynt.</p>	<p>Nod y cynllun yw darparu meithrin ar gyfer disgyblion a staff Ysgol Gynradd Parc y Tywyn drwy gynyddu'r ystod oedran pan dderbynnir disgyblion i'r ysgol yn gyfreithiol o 4 – 11, fel y mae ar hyn o bryd, i 3 -11. Mae'r awdurdod yn ceisio safoni'r ddarpariaeth feithrin yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg fel ei gilydd yn ardaloedd Porth Tywyn a Phen-bre. Bydd hyn yn sicrhau bod disgyblion yn symud yn ddi-dor o addysg feithrin i addysg gynradd yn y sector cyfrwng Cymraeg. Mae darpariaeth feithrin eisoes yn cael ei chynnig yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg ym Mhorth Tywyn a Phen-bre</p>		
<p>Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn rhoi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol:-</p> <p>(1) dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon;</p> <p>(2) hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau ; a</p> <p>(3) meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau (gweith y nodiadau esboniadol)</p>	<p>2. Faint o effaith fydd ar bob grŵp/nodwedd warchoddedig o ran tri nod y ddyletswydd? Nodwch a fydd yn cael effaith fawr, effaith ganolig, effaith fach neu ddim effaith o gwbl.</p>	<p>3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob grŵp/nodwedd warchoddedig?</p>	<p>4. Os oes effaith negyddol anghymesur, pa ffactorau lliniarol ydych wedi'u hystyried?</p>

			Y Risgiau	Yr Effeithiau Cadarnhaol	
Nodweddion gwarchoddedig	Oed	Effaith fach		Bydd y cynnig yn darparu mynediad i ddarpariaeth feithrin mewn adeilad ysgol ar gyfer plant oedran meithrin	
	Anabledd	Effaith fach		Bydd y feithrin yn cael ei lleoli mewn adeilad a fydd yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, gan sicrhau mynediad llawn i bawb	
	Ailbennu rhywedd	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Hil	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Crefydd/Cred	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Rhyw	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
	Y Gymraeg	Effaith fach		Bydd hyn yn safoni'r ddarpariaeth feithrin yn yr ysgolion cyfrwng	

				Cymraeg a chyfrwng Saesneg fel ei gilydd yn ardaloedd Porth Tywyn a Phen-bre	
	Unrhyw faes arall	Dim effaith o gwbl	Niwtral		

<p>5. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchoddedig priodol?</p>	<p>YDW <input checked="" type="checkbox"/> NAC YDW <input type="checkbox"/></p> <p>Mae'r Swyddog Prosiect wedi cysylltu â'r Pennaeth, darparwyr meithrin a gwarchodwyr plant preifat yn ardaloedd Porth Tywyn a Phen-bre. Hefyd, mae'r aelodau lleol wedi cael gwybodaeth lawn am y cynnig</p>
<p>6. Pa gam/gamau a gymerwch i leihau unrhyw effeithiau negyddol anghymesur, os bydd rhai? Sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cael gwybodaeth lawn drwy gydol y broses statudol</p>	

10. Atodiad D – Proffil Ardal

Mae Ysgol Parc y Tywyn o fewn ffiniau ward Pen-bre 2.

Pen-bre - (Pen-bre 2 (SA160TP) Côd LSOA: W10000711)

MYNEGAI AMDDIFADEDD LLUOSOG CYMRU (MALLC)

Mae Malc 2014 yn seiliedig ar ddaearyddiaeth fanwl iawn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is.

Mae MALIC 2014 yn cael ei lunio ar sail wyth maes sef Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, Tai, Mynediad i Wasanaethau, yr Amgylchedd Ffisegol, a Diogelwch Cymunedol. Fe'i cyhoeddir yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ac mae 112 o'r rhain yn Sir Gaerfyrddin.

O dan y MALIC, Safle 1 yw'r safle mwyaf amddifad. Mae **Pen-bre 2** yn safle 14 o blith y 112 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yn Sir Gaerfyrddin ac yn safle 400 o blith y 1,909 LSOA yng Nghymru.

Cyflogaeth yw'r maes lle ceir y lefel uchaf o amddifadedd ym **Mhen-bre 2**, sef safle 10 yn Sir Gaerfyrddin a safle 292 yng Nghymru ar gyfer y maes hwn.

Pen-bre 2 - Ashburnham i Barc Gwledig Pen-bre

LSOA	Mynegai Cyffredinol		Meysydd: Incwm		Cyflogaeth		Iechyd		Addysg		Tai		Mynediad at Wasanaethau		Amgylchedd Ffisegol		Diogelwch Cymunedol	
Pen-bre 2	14	400	11	412	10	292	30	535	14	413	14	435	49	459	110	1782	37	1058

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (cyhoeddwyd Tachwedd 2014), Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Sylwer: LSOAs a restrwyd yn safleoedd **1-112** (Sir Gaerfyrddin), **1-1909** (Cymru).

Proffil Ardal ar gyfer Côt Post: SA16 0TP: (Côt LSOA Pen-bre 2: W10000711)

Y Boblogaeth:	2,030
Y Gymraeg:	Y ganran sy'n deall Cymraeg: 45.1% Y ganran sy'n medru siarad Cymraeg: 26.8% Y ganran sy'n medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg: 17.8% Medru siarad Cymraeg (3-15 oed):5.3% Dim sgiliau Cymraeg:54.9%
Nifer y plant a'r bobl ifanc:	17.9% (0-15 oed) 9.9% (16-24 oed)
Ystyriaethau o ran y boblogaeth:	Y mynd a dod cyffredinol o ran poblogaeth yr ardal: fesul 1,000 Nid yw'r data ar gael mwyach
Ethnigrwydd:	Gwyn (Prydeinig): 97.0% Gwyn (Gwyddelig): 0.7% Gwyn (Arall): 0.2% Cymysg (Gwyn/Du Caribiaidd): 0.4% Asiaidd Prydeinig (Indiaidd) 0.1% Asiaidd Prydeinig (Asiaidd arall): 0.3% Grŵp ethnig arall: 0.3%
Crefydd:	Cristnogaeth: 60.4% Bwdhaeth: 0.0% Hindŵaeth: 0.0% Iddewiaeth: 0.0% Islam: 0.0% Siciaeth: 0.1% Crefydd arall: 0.4% Dim crefydd: 32.8% Crefydd heb ei nodi: 6.3%
Gradd Amddifadedd:	Cyfanswm yr aelwydydd: 908 Cyfanswm yr aelwydydd nad ydynt wedi'u hamddifadu mewn unrhyw ddimensiynau: 257 Nifer yr aelwydydd sydd wedi'u hamddifadu mewn 1-4 o ddimensiynau: 651

Mae'r safle newydd o fewn ffiniau ward Porth Tywyn 2.

Porth Tywyn 2 - (Porth Tywyn 2 (SA16 0NH) Côd LSOA: W01000633)

MYNEGAI AMDDIFADEDD LLUOSOG CYMRU (MALLC)

Mae MALIC 2014 yn seiliedig ar ddaearyddiaeth fanwl iawn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is. Mae MALIC 2014 yn cael ei lunio ar sail wyth maes sef Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, Tai, Mynediad i Wasanaethau, yr Amgylchedd Ffisegol, a Diogelwch Cymunedol. Fe'i cyhoeddir yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ac mae 112 o'r rhain yn Sir Gaerfyrddin.

O dan y MALIC, Safle 1 yw'r safle mwyaf difreintiedig. Mae **Porth Tywyn 2** yn safle 18 yn Sir Gaerfyrddin ac yn safle 471 yng Nghymru.

Diogelwch Cymunedol yw'r maes lle ceir y lefel uchaf o amddifadedd ym **Mhorth Tywyn 2**, sef safle 12 yn Sir Gaerfyrddin a safle 412 yng Nghymru.

Porth Tywyn 1 - Canol Porth Tywyn

Porth Tywyn 2 - De Porth Tywyn

Porth Tywyn 3 - Maestrefi Porth Tywyn

Porth Tywyn 2

LSO A	Mynegai Cyffredinol		Incwm		Cyflogaeth		Iechyd		Addysg		Tai		Mynediad at Wasanaethau		Amgylchedd Ffisegol		Diogelwch Cymunedol	
Porth Tywyn 2	18	471	18	533	13	335	55	880	16	431	47	850	60	597	37	663	12	412

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (cyhoeddwyd Tachwedd 2014), Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Sylwer: LSOAs a restrwyd yn safleoedd **1-112** (Sir Gaerfyrddin), **1-1909** (Cymru)

Proffil Ardal ar gyfer Côd Post SA16 0NH (Côd LSOA Porth Tywyn 2 W01000633)

Y Boblogaeth:	1,406
Y Gymraeg:	Y ganran sy'n deall Cymraeg: 46.9% Y ganran sy'n medru siarad Cymraeg: 28.9 Y ganran sy'n medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg: 19.3% Medru siarad Cymraeg (3-15 oed):5.5% Dim sgiliau Cymraeg o gwbl: 53.1%
Nifer y plant a'r bobl ifanc:	15.6% (0-15 oed) 10.5% (16-24 oed)
Ystyriaethau o ran y boblogaeth:	Y mynd a dod cyffredinol o ran poblogaeth yr ardal: fesul 1,000 Nid yw'r data ar gael mwyach
Ethnigrwydd:	Gwyn (Prydeinig): 97.2% Gwyn (Gwyddelig): 0.7% Gwyn (Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig): 0.1% Gwyn (Arall): 1.0% Cymysg (Gwyn/Du Caribiaidd): 0% Cymysg (Gwyn ac Asiaidd): 0.1% Cymysg (Arall): 0.2% Asiaidd Prydeinig (Indiaidd) 0.1% Asiaidd Prydeinig (Asiaidd arall): 0.3% Du Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig; Caribiaidd: 0.1% Grŵp ethnig arall: 0.1%
Crefydd:	Cristnogaeth: 61.6% Bwdhaeth: 0.3% Hindŵaeth: 0% Iddewiaeth: 0.1% Islam: 0.3% Siciaeth: 0.1% Crefydd arall: 0.8% Dim crefydd: 28.2% Crefydd heb ei nodi: 8.6%
Gradd Amddifadedd:	Cyfanswm yr aelwydydd: 703 Cyfanswm yr aelwydydd nad ydynt wedi'u hamddifadu mewn unrhyw ddimensiynau: 168 Nifer yr aelwydydd sydd wedi'u hamddifadu mewn 1-4 o ddimensiynau: 535

11. Atodiad E – Ffurflen Ymateb

A fydddech cystal â rhoi eich sylwadau ar y cynigion ynghylch y ddarpariaeth yn y dyfodol ar gyfer plant cynradd sy'n byw yn nalgylch **Ysgol Parc y Tywyn**.

Eich sylwadau:

A oes unrhyw faterion eraill y dymunwch dynnu ein sylw atynt?

Ticiwch un o'r blychau os dymunwch gael gwybod am gyhoeddi adroddiad ymgynghori.

Copi Cymraeg

Copi Saesneg

Llofnod	_____	Printiwch yr Enw	_____
		Swydd/Categ ori yr ymatebydd: (e.e. rhiant)	_____
Cyfeiriad	_____		_____
	_____	Dyddiad	_____

Côd Post	_____		

Sylwer: oni nodwch yn wahanol, bydd modd i'r cyhoedd weld eich sylwadau fel rhan o gofnodion ffurfiol y broses ymgynghori.

Datgysylltwch y ffurflen hon a'i dychwelyd at: Yr Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin. SA31 3HB neu anfoner neges e-bost at aaprma@sirgar.gov.uk heb fod yn hwyrach na **Rhagfyr 17, 2017**.

EDUCATION & CHILDREN SCRUTINY COMMITTEE 28TH SEPTEMBER 2017

Forthcoming items for next meeting – Monday 27th November 2017

1. School Budgets (including TIC work)
2. ERW Business Plan 2017/18 & Review of 2016/17 (including update on curriculum changes)
3. MEP Proposals – Llanedi / Banffosfelen / Laugharne
4. New Children's Zone
5. Fostering Annual Reports
6. Behavioural Services Review

Education & Children Scrutiny Committee – Forward Work Programme 2016/17 (as at 7th March 2017)

23 May 16	17 June 16	22 Sept 16	10 Oct 16	21 Nov 16	22 Dec 16	26 Jan 17	15 March 17	24 April 17
Annual Report of Director of Social Services 2015/16 [Joint with SC&H]	Draft CCC Annual Report 15/16 and Imp. Plan 16/17	Unverified Results 2016 Teacher Assessments and External Examinations	ERW Business Plan 2016/17 & Review of 2015/16 (including ERW Inspection 2016)	MEP Proposal – Llangennech (Stage 3)	Welsh in Education Strategic Plan (WESP)	Task & Finish Report – Attainment Gap and eFSM Learners	Q3 Performance Monitoring Report 2016/17	Corporate Parenting & Safeguarding Panel Annual Report 2016
CCC Draft Play Sufficiency Assessment	EOY Budget Monitoring 2015/16	Youth Support Service Business Plan 2016/17	School Improvement Panel Annual Report 2015/16	ALN Reform – A Carms response	3-year Revenue Budget Consultation	School Performance and Achievements 2015/16	Budget Monitoring 2016/17	
MEP Proposal – Llangennech	EOY Performance Monitoring 2015/16	Q1 Performance Monitoring Report 2016/17	TIC Project Update	Half-Year Compliments & Complaints Report	5-year Capital Budget Consultation	CSSIW Inspection of Children's Services	WG Categorisation of Schools 2017	
MEP Biennial Review	11-19 Learning Network Update	Budget Monitoring 2016/17	School Visit Activity Report 2015/16	Budget Monitoring 2016/17	Draft Carms Curriculum Declaration		Actions & Referrals Update	
E&C Forward Work Programme 2016/17	MEP Proposal – Bro Myrddin	E&C Scrutiny Annual Report 2015/16		Actions & Referrals Update	Education Business Plan 2017/18			
	WESP Consultation							
	Actions & Referrals Update							

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT

Dydd Llun, 24 Ebrill 2017

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd J.E. Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

D.J.R. Bartlett, C.A. Campbell, J.M. Charles, I.W. Davies, W.G. Hopkins, P. Hughes-Griffiths, J.D. James, P.E.M. Jones, M.J.A. Lewis and D.W.H. Richards

Hefyd yn bresennol:

Y Cyngorwyr G.O. Jones, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

S. Smith - Pennaeth Gwasanaethau Plant
B. James - Rheolwr Gwasanaethau Rhianta Corfforaethol
J. Meredith - Rheolwr Gwasanaethau Maethu ac Adnoddau
S. Owen - Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal
Ms. M. James - Ymgynghorydd Personol
C. Gadd - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol:

Cynrychiolwyr y sawl sy'n Gadael Gofal

Siambwr Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 - 11.10 am

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mrs. V. Kenny (cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig Rufeinig), Mrs. K. Hill (Aelod Rhiant-lywodraethwr – Ardal Dinefwr) a Mrs. A. Pickles (Aelod Rhiant-lywodraethwr – Ardal Caerfyrddin).

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

3. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip.

4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

5. DIWEDDARIAD RHIANTA CORFFORAETHOL

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Diweddarau Blynyddol Rhianta Corfforaethol a oedd yn cynnwys gwybodaeth am Rianta Corfforaethol, plant heb gwmni oedolyn sy'n ceisio lloches a gwasanaethau maethu. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r canlyniadau llwyddiannus a gafwyd, yr heriau o gadw gofalwyr maeth a chael digon o staff ac adnoddau i fodloni'r galw cynyddol gan y sawl sy'n gadael gofal.

Pwysleisiodd y swyddogion fod Rhianta Corfforaethol yn cynnwys pobl ifanc rhwng 16 a 25 sy'n gadael gofal. Clywodd y Pwyllgor gan ddau unigolyn a oedd wedi gadael gofal am eu profiadau a'r cymorth a roddwyd iddynt. Dywedwyd wrth yr aelodau fod y Cyngor yn cynnig swyddi dan hyfforddiant i'r sawl sy'n gadael gofal, a oedd yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau. Nododd yr aelodau fod sylwadau cadarnhaol am y cymorth a roddwyd iddynt ac roedd yr aelodau'n cydnabod y gwaith a gyflawnwyd gan y Gwasanaeth. Diolchodd y Pwyllgor i'r bobl ifanc a oedd wedi gadael gofal am y cipolwg defnyddiol yr oeddent wedi'i roi gan nodi y bu i'r Pwyllgor glywed yn uniongyrchol gan y sawl a oedd yn cael gwasanaethau o'r fath.

Esboniodd y swyddogion fod gan yr Awdurdod Lleol Strategaeth Rhianta Corfforaethol a oedd yn amlinellu'r mesurau y byddai'n eu cymryd i sicrhau bod y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r sawl sy'n gadael gofal yn gadarnhaol. Roedd nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng yn gyson ers 2011, gyda'r nifer cyfredol yn 210. Nodwyd bod y mwyafrif o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng addysg prif ffrwd gydag 11 o blant yn unig yn cael darpariaeth addysg amgen. Pwysleisiwyd bod Sir Gaerfyrddin yn llwyddiannus iawn wrth gymharu â chyfartaledd Cymru o ran cyrhaeddiad ysgol plant sy'n derbyn gofal ac roedd yr ysgolion yn cael cymorth gan y Tîm Rhianta Corfforaethol

Roedd y Gwasanaethau Rhianta Corfforaethol yn darparu mynediad i theraplay, cwnsela ac ymyriadau therapiwteg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'u gofaluwr. Pwysleisiwyd bod y gwasanaethau'n cefnogi un rhan o dair o blant sir sy'n derbyn gofal ac roedd gwasanaethau o'r fath y bwysig er mwyn i'r afael â'u hiechyd emosiynol. Nodwyd bod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi gweld 3 o blant sy'n derbyn gofal yn unig y llynedd.

Dywedodd y swyddogion y rhagwelwyd y byddai niferoedd y sawl sy'n gadael gofal yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf oherwydd newidiadau yn y ddeddfwriaeth a byddai'n cymryd tipyn o amser i'r niferoedd ostwng. Pwysleisiwyd bod y Tîm Gadael Gofal yn darparu ystod o gyfleoedd hyfforddi a chymorth ar gyfer y sawl sy'n gadael gofal ac roedd yn fwriad parhau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Fodd bynnag, roedd Sir Gaerfyrddin yn is na chyfartaledd Cymru o ran pobl ifanc NEET sy'n gadael gofal. Gofynnodd y Pwyllgor am ffigurau er mwyn cymharu ag awdurdodau lleol eraill a bod ffigurau cyfartaledd cenedlaethol yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Roedd sicrhau bod pobl sy'n gadael gofal yn byw mewn llefydd priodol yn cael ei gydnabod yn her wrth symud ymlaen, yn enwedig o ran gofynion y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod', a oedd yn caniatáu pobl sy'n gadael gofal i aros gyda'u teuluoedd maeth am gyfnod hirach. Nodwyd bod hwn yn gynllun cadarnhaol iawn, fodd bynnag, nid oedd cymorth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Roedd hefyd yn atal rhai gofaluwr maeth rhag cael eu rhyddhau ar gyfer lleoliadau newydd. Pwysleisiwyd nad oedd yr un unigolyn a oedd wedi gadael gofal wedi cael llefydd Gwely a Brecwast yn ystod y 12 mis diwethaf.

Gofynnodd yr aelodau am nifer y plant sy'n derbyn gofal o siroedd eraill a oedd yn mynychu ysgolion yn Sir Gaerfyrddin a gofynnwyd pwy oedd yn gyfrifol amdanynt. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Rhianta Corfforaethol nad y Cyngor oedd y

Rhiant Corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o siroedd eraill ac ar hyn o bryd roedd 105 yn yr ardal. Eglurwyd mai'r awdurdod lleol lle'r oedd y plentyn wedi dod yn blentyn sy'n derbyn gofal oedd yn gyfrifol amdano. Nodwyd bod ysgolion bellach yn derbyn y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant y tu allan i'r Sir. Gofynnodd yr aelodau ai'r system hon oedd y system orau i osod plant mewn ardaloedd eraill. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant bod prinder cenedlaethol o ofalwyr maeth ac ar adegau roedd angen defnyddio gwasanaethau Asiantaethau Maethu Annibynnol, a allai arwain at blant yn cael eu gosod y tu allan i'r Sir. Pwysleisiwyd mai Sir Gaerfyrddin oedd y Cyngor gorau yng Nghymru o ran cadw ei blant sy'n derbyn gofal yn ei sir ei hun.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth ar gyfer Maethu ac Adnoddau wrth y Pwyllgor am y gwaith a oedd yn cael ei gyflawni gan y Gwasanaeth Maethu. Pwysleisiwyd bod llai o blant yn derbyn gofal, fodd bynnag roedd ganddynt yn aml anghenion mwy cymhleth. Roedd ceisio recriwtio gofalwyr maeth i fodloni'r galw yn parhau i fod yn her. Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Plant fod cynnig gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu gwasanaethau maethu rhanbarthol, yn debyg i'r hyn a welir gan y gwasanaethau mabwysiadu rhanbarthol. Pwysleisiwyd y byddai mwy o gymhlethdod wrth geisio gosod gwasanaethau maethu yn rhanbarthol.

Mynegodd yr aelodau bryderon am nifer y symudiadau o ran lleoliad i blant sy'n derbyn gofal. Roedd swyddogion yn cydnabod bod hwn yn bryder ac amlinellwyd y gwelliannau oedd ar waith. Esboniwyd bod y mwyafrif o'r symudiadau ar gyfer plant dros 10 oed ac roedd yn anodd recriwtio gofalwyr maeth ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau ac roedd gan lawer o'r plant hynny anghenion heriol a chymhleth iawn. Rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith er mwyn mynd i'r afael â lleoliadau i bobl ifanc yn eu harddegau, a oedd yn cynnwys rhaglen recriwtio gofalwyr maeth a oedd yn targedu lleoliadau i blant dros 10 oed. Cafwyd rhai trafodaethau hefyd am rannu marchnata a hysbysebion ar y cyfryngau gydag awdurdodau lleol cyfagos. Roedd sefydlogrwydd lleoliadau'n cael ei fonitro drwy gyfrwng y Panel Parhauster ac roedd bwriad cynnal cyfarfodydd ychwanegol er mwyn adolygu lleoliadau lle'r oedd angen cymorth ychwanegol arnynt. Yn ogystal, roedd gan uwch-weithiwr cymdeithasol rôl benodol yn cefnogi lleoliadau i bobl ifanc yn eu harddegau sy'n heriol iawn. Gofynnodd aelodau a oedd gofalwyr maeth yn cael hyfforddiant ar reoli lleoliadau heriol a chymhleth. Cadarnhaodd swyddogion fod hyfforddiant dwys a bod Sir Gaerfyrddin wedi cael canmoliaeth am ei hyfforddiant.

Maes arall y nodwyd bod angen rhagor o recriwtio oedd lleoliadau ar gyfer mamau a babanod, a nodwyd bod y Cyngor yn un o'r rhai prin a oedd yn cynnig yr opsiwn hwn. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod Strategaeth Recriwtio a Chadw ar gyfer gofalwyr maeth wedi cael ei datblygu ac yn cael ei rhoi ar waith. Nodwyd bod Sir Gaerfyrddin yn cynnig un o'r ad-daliadau isaf ar gyfer gofalwyr maeth a bod hyn yn cael effaith ar recriwtio. Roedd llawer o gystadleuaeth o awdurdodau lleol cyfagos ac Asiantaethau Maethu Annibynnol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y Gwasanaeth yn darparu gwasanaethau cymorth da a'i fod yn llwyddo i gadw gofalwyr maeth. Nodwyd bod y gwasanaeth wedi llwyddo yn ddiweddar i recriwtio rhai gofalwyr maeth o asiantaethau annibynnol. Her arall oedd cyfartaledd oedran gofalwyr maeth, sef 55 oed, ac roedd strategaethau'n cael eu hystyried ar gyfer denu gofalwyr maeth iau.

Nodwyd yn ystod 2014-15 bod nifer uchel o ofalwyr maeth wedi dadgofrestru. Wrth ddadansoddi hyn ymhellach, roedd y Gwasanaeth yn fodlon nad oedd wedi colli gofalwyr maeth oherwydd anfodlonrwydd, ond yn hytrach am resymau eraill

megis newidiadau mewn amgylchiadau personol ac ymddeoliadau. Roedd tystiolaeth bod gwasanaeth mewnol da yn cael ei ddarparu.

Gofynnodd yr aelodau a oedd yr Asiantaethau Maethu Annibynnol yn fusnesau, cadarnhawyd eu bod yn sefydliadau preifat yn gyffredinol, ac ambell un ohonynt yn sefydliadau elusennol. Pwysleisiwyd bod yr Asiantaethau Annibynnol yn codi tâl tipyn mwy ar Awdurdodau Lleol am leoliadau. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant fod rheoliadau yn yr Alban i atal Asiantaethau Annibynnol rhag gwneud elw, fodd bynnag, yng Nghymru a Lloegr nid oedd y costau'n cael eu rheoleiddio ac roedd rhai sefydliadau wedi gwneud cryn dipyn o elw. Pwysleisiwyd yr awgrymwyd i Lywodraeth Cymru y dylai ddilyn esiampl yr Alban a datblygu rheoliadau. Cytunodd y Pwyllgor argymhell i'r Bwrdd Gweithredol fod y Cyngor yn ysgrifennu i Lywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynigion i ddatblygu rheoliadau i gyfyngu ar allu Asiantaethau Maethu Annibynnol i wneud elw ar ddod o hyd i leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal .

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Rhianta Corfforaethol olwg gyffredinol i'r Pwyllgor ar ddarparu llety i blant sy'n ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn Sir Gaerfyrddin. Esboniwyd bod ystod o raglenni a ffyrdd y gallai plant sy'n ffoaduriaid a cheiswyr lloches ailgartrefu yn y DU. Pwysleisiwyd y byddai'r plant hyn yn cael eu hystyried yn blant sy'n derbyn gofal, fodd bynnag, byddai'r costau'n cael eu hail-dalu gan fod y Swyddfa Gartref yn darparu lwfans ar gyfer y plant hyn. Gofynnwyd i'r holl awdurdodau lleol gymryd canran o'r boblogaeth plant yn eu hardaloedd. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin ddigon o ofalwyr maeth ar hyn o bryd. Y cynnig oedd datblygu gwasanaeth a fyddai'n cael ei gynnig i blant dros 16 oed.

Gofynnodd yr aelodau a fyddai newid polisi Llywodraeth y DU ar Syria yn cael effaith ar y cynigion hyn. Esboniwyd bod y ddeddfwriaeth yn newid yn rheolaidd, fodd bynnag, roedd y Swyddfa Gartref yn parhau i ofyn i awdurdodau lleol gymryd canran o'r plant heb gwmni oedolyn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

5.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn;

5.2 argymhell i'r Bwrdd Gweithredol bod y Cyngor yn ysgrifennu i Lywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynigion i ddatblygu rheoliadau i gyfyngu ar allu Asiantaethau Maethu Annibynnol i wneud elw ar ddod o hyd i leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

6. EGLURHAD AM BEIDIO A CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad ynghylch Adolygu'r Gwasanaethau Ymddygiad.

7. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWDYD AR Y 15EG MAWRTH, 2017

Cyfeiriwyd at gofnod 7 (Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb 2016/17) ac yn benodol paragraff saith o'r materion a drafodwyd ynghylch aildrefnu darpariaeth gynradd yn nhref Rhydaman, a nodwyd y dylai gynnwys datganiad "nodwyd bod £19 miliwn wedi'i osod naill ochr ar gyfer y prosiect hwn".

PENDERFYNWYD, ar yr amod y byddai'r newid a nodwyd uchod yn cael ei gynnwys, lofnodi cofnodion cyfarfod a oedd wedi'i gynnal ar 15 Mawrth, 2017, i nodi eu bod yn gywir.

Cyn dirwyn y cyfarfod i ben, roedd y Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor wedi cydnabod y gwaith rhagorol a gyflawnwyd ar ran y Pwyllgor gan Matthew Hughes, y cyn Swyddog Gwasanaethau Democrataidd. Gofynnwyd am anfon llythyr o ddiolch ato ar ran y Pwyllgor a dymuno yn dda iddo yn ei swydd newydd.

CADEIRYDD

DYDDIAD

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol